# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 1AF CHWEFROR, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol Zoom**

Cysylltwch ar gyfer mynediad i'r cyhoedd

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 24 Ionawr 2022)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Paul John Rowlinson | Judith Mary Humphreys<br>E. Selwyn Griffiths | Menna Baines |

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill

| | |
|---|---|
| Dashu (Scott Smith) | Bwdhaeth |
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Awaiting Nomination | Yr Annibynnwyr |
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Edward Parri-Jones | Dyneiddiwr |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Cathryn Davey | UCAC |
| Heledd Jones | NEU |
| Disgwyl Enwebiad | |

### Aelodau Cyfetholedig

# R H A G L E N

**1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL**

Gweddi neu fyfyrdod tawel

**2. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**4. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw faterion sydd o frys ym marn y Cadeirydd ar gyfer ystyriaeth

**5. COFNODION** 5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2021 a 23 Tachwedd 2021 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir

**6. CYNHADLEDD MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU** 12 - 66

I drafod y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig Sydd ar y Gweill

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2020/2021** 67 - 87

I ystyried Adroddiad Blynyddol CYSAG ar gyfer 2020/2021

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 08/06/21

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Menna Baines, Selwyn E Griffiths, Judith Humphreys, Dewi W Roberts

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill:** Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Gwawr Maelor Williams (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

**Athrawon:** Miriam Amlyn (NASUWT)

**Swyddogion:** Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau), Buddug Mair Huws (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Gynorthwyol a Chlerc CYSAG), Sion Huws (Adran Gyfreithiol), Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Yn Bresennol ar Gyfer Eitem 8**: Dr Gareth Evans Jones, Darlithydd Astudiaethau Crefyddol, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

Cadarnhawyd, er bod nifer o ymddiheuriadau wedi dod i law, bod cworwm.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Selwyn E Griffiths.

## 2. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail-ethol y Cynghorydd Paul Rowlinson yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ail-ethol y Cynghorydd Menna Baines yn Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.

## 4. YMDDIHEURIADAU

Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Dashu (Bwdïaeth), Cathryn Davey (UCAC), Garem Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg), Heledd Jones (NEU)

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 6. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

## 7. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Bu i'r Cadeirydd gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2021 fel rhai cywir, a'u llofnodi.

## 8. DYFODOL CANOLFAN ADDYSG GREFYDDOL PRIFYSGOL BANGOR

Croesawyd Dr Gareth Evans Jones, Darlithydd Astudiaethau Crefyddol, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd fwriad yr Adran, mewn trafodaethau gyda'r Llyfrgell, i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Ganolfan, gan ei huno gyda phrosiect newydd o'r enw 'Ail-gysylltu'. Cadarnhaodd fanteision bod yn perthyn i Adran draws-ddisgyblaethol sydd yn annog rhannu modiwlau.

Manylodd am y prosiect fydd yn creu adnodd newydd ysgrifenedig i athrawon Addysg Grefyddol Lefel A. Nododd bod y Brifysgol yn y broses o drafod llwybrau newydd Addysg Grefyddol oddi fewn i'r cwrs gradd, gan annog myfyrwyr, fel rhan o'r cwrs i ddilyn llwybr Addysg Grefyddol. Ategwyd y sylw drwy gadarnhau bod yr Adran Addysg hefyd yn cynnig modiwl newydd addysg i gynnwys Addysg Grefyddol sydd yn rhoi blas ar ddysgu ac addysgu.

Nododd y Pwyllgor eu bod yn falch o glywed am y llwybr Addysg Grefyddol, yn enwedig yn sgil y datblygiadau gyda'r cwricwlwm newydd, a'r angen i sicrhau bod athrawon cymwys sydd â gwybodaeth arbenigol am Addysg Grefyddol.

Gofynnwyd tybed fyddai modd cynnwys deunydd ar gyfer TGAU, gan y teimlwyd mai ar y lefel hon oedd eisiau dal diddordeb y disgyblion, gan efallai bontio wedyn i ddangos y cyfleoedd. Nodwyd ei fod yn gyfle gwych nawr i wneud hyn, er mai y targed oedd disgyblion Lefel A.

Amlygwyd yr heriau megis cysylltu gydag ysgolion yn ystod y cyfnod diweddar. Nododd hefyd y diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg, ond bod y broblem hon wedi ei goresgyn drwy addasu deunyddiau Saesneg yn hytrach na dim ond eu cyfieithu, gan ychwanegu gwedd Gymreig iddynt.

O ran Safon Uwch yn Arfon yn benodol, gan fod y niferoedd sydd yn dewis gwneud y pwnc yn isel, onid dysgu o bell fyddai un ateb? Cadarnhawyd y byddai yr Adran yn gallu bod o gymorth gyda hyn gan mai cydweithio yw y flaenoriaeth. Ategwyd y sylw gan nodi bod modiwl blas ar addysgu yn cael ei gynnig gan yr Adran Addysg, gyda lle i brosiect rhyngweithiol.

Cadarnhawyd y bydd y newyddlen Newyddion Addysg Grefyddol yn cael ei hatgyfodi a'i rhyddhau cyn diwedd y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** croesawu y diweddariad gan Yr Athro G Evans Jones a chytuno i gydweithio pellach rhwng CYSAG Gwynedd, Adran Addysg Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG

Cyflwynwyd yr adroddiad drafft ar gyfer y cyfnod Medi 2019 - Awst 2020 i'r Panel. Codwyd pryder gan yr awdur bod cefnogaeth GwE wedi dod i ben erbyn hyn, ac o ganlyniad bod y trosolwg a'r dadansoddi arbenigedd pwnc wedi eu colli yn yr Adroddiad. Nodwyd mai sgil effaith arall o golli y gefnogaeth oedd nad oedd y Cynllun Gweithredu mor gynhwysfawr â'r blynyddoedd a fu.

Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd y sylwadau, gan gytuno mabwysiadu yr adroddiad ar gyfer y cyfnod Medi 2019 i Awst 2020.

**10. CYFETHOL DISGYBLION AR BWYLLGOR CYSAG**

Atgoffwyd pawb bod y mater uchod wedi ei drafod rai blynyddoedd yn ôl, ac mai un o'r anawsterau ar y pryd oedd materion ymarferol yn ymwneud â gallu disgyblion i deithio i Gaernarfon i fynychu cyfarfodydd. Nodwyd na fyddai teithio yn broblem erbyn hyn gan fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol.

Cafwyd trafodaeth a nodwyd pryderon megis cyfrinachedd adroddiadau a tybed fyddai yn addas i ddisgybl fod yn rhan o'r math hwn o drafodaeth? Nodwyd, fodd bynnag, bod cyfarfodydd CYSAG yn gyfarfodydd cyhoeddus. Nodwyd bod yn rhaid cael pwrpas clir i'r disgybl fod yn bresennol yn y cyfarfod, gyda rôl a chyfraniad clir i'w wneud. Cwestiynwyd beth fyddai y sefyllfa o ran angen y disgybl i ddatgan buddiant?

Awgrymwyd y gellid ystyried derbyn mewnbwn gan athro a disgybl wrth i athro sôn am ddarn arbennig o waith a'r plentyn yn ei drafod o ogwydd y disgybl? Atgoffwyd y Pwyllgor bod y mater o gynnwys disgyblion ym mhwyllgorau y Cyngor wedi ei drafod mewn pwyllgorau eraill. Teimlodd y Pwyllgor, o ganlyniad i newid mewn rheolau pleidleisio ar gyfer pobl ifanc, a'r gwaith o hybu yr ifanc i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, y byddai yn ddefnyddiol i'r Cadeirydd wneud ymholiadau pellach. Cwestiynwyd efallai y byddai yn well trafod gyda phobl ifanc yn y lle cyntaf gan egluro beth yw CYSAG a holi tybed a fyddent yn teimlo bod rôl ganddynt? Nodwyd ei bod yn bwysig bod yn glir beth fyddai rôl y disgybl yn y cyfarfod. Cadarnhawyd y byddai angen ystyried sut i ddewis plant o ran oedran, lleoliad, faint o blant, ayyb.

Penderfynwyd, yn ddarostyngedig ar y sylwadau a ddaw i law yn dilyn sgwrs rhwng y Cadeirydd a'r Swyddog priodol, derbyn y cynnig i lunio gweithgor i edrych ar yr holl opsiynau o ran cyfethol disgyblion ar bwyllgor CYSAG. Cytunwyd y byddai angen adrodd yn ôl i'r Pwyllgor llawn maes o law o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Dewi W Roberts, gyda Miriam Amlyn, Anest G Frazer a Gwawr M Williams yn aelodau.

**11. YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR "CANLLAWIAU YNGHYLCH CYNLLUNIO A GWEITHREDU ELFEN ORFODOL CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG"**

Derbyniwyd yr adroddiad, gan nodi y bydd angen trefnu cynhadledd rhwng Rhagfyr 2021 a'r Haf 2022 fel mae pethau yn sefyllfa ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaeth a nodwyd y gobaith na fydd unrhyw newid cyn 2023 er mwyn ei wneud yn iawn, gan y bydd hon yn ffordd wahanol o roi gwersi. Cadarnhawyd bod yr Undebau wedi ymgynghori llawer gan gynnal llawer o drafodaethau. Nodwyd bod y ddogfen yn edrych yn dda, ond bod pryder o ran faint o oriau sydd wedi eu clustnodi i Addysg Grefyddol, a'r angen i weithio yn galed i gadw statws Addysg Grefyddol gan ei fod wedi bod yn bwnc unigol hyd yn hyn. Cadarnhawyd bod ESTYN eisoes wedi bod yn holi sut y bwriedir cadw arbenigedd y pwnc.

Penderfynwyd dangos bodlonrwydd gyda chynnwys yr ymgynghoriad, gan nodi bod sgiliau pwnc Addysg Grefyddol yn allweddol o ran yr elfen arbenigol wrth addysgu'r cwricwlwm newydd. Nodwyd bod angen i Lywodraeth Cymru oedi am o leiaf blwyddyn cyn cyflwyno y cwricwlwm newydd, er mwyn i ysgolion gael cyfle i ail-sefydlogi.

**12. MATERION CCYSAGAU**

a) Derbyniwyd Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2021

b) Cefnogwyd Enwebiad Kathy Riddick i’r Pwyllgor Gwaith

c) Nodwyd Dyddiad y Cyfarfod Nesaf a chynigiwyd enwau Eurfryn Davies, Y Cynghorydd Dewi W Roberts a’r Cynghorydd Paul Rowlinson fel Cynrychiolaeth i’r CCYSAGAU y tro hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m. a daeth i ben am 3.40 p.m.

**CADEIRYDD**

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 23/11/21

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Menna Baines a Selwyn E Griffiths

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill:** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

**Swyddogion:** Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau), Buddug Mair Huws (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Gynorthwyol a Chlerc CYSAG), Cyfieithwyr

**Yn Bresennol ar Gyfer Eitem 6:** Libby Jones**,** Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam

Cadarnhawyd, gan fod nifer o ymddiheuriadau ac absenoldebau nad oedd cworwm ac na fyddai modd i'r Pwyllgor wneud unrhyw benderfyniadau, ond y byddai y cyfarfod yn parhau a materion yn cael eu rhannu er gwybodaeth.

Rhoddodd y Cynghorydd Selwyn E Griffiths deyrnged arbennig i'r Cynghorydd Pat Larsen a'r Cynghorydd Wyn Meredith, gan ddiolch am eu gwaith tyngedfennol gyda CYSAG a CCYSAGAU.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Menna Baines.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Miriam Amlyn, Cathryn Davey, Cyng. Judith Humphreys, Cyng. Dewi W Roberts, Cyng. Cemlyn R Williams, Gwawr Maelor Williams

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Oherwydd nad oedd cworwm, nid oedd modd i'r Cadeirydd gadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin fel rhai cywir. Bydd y cofnodion yn cael eu llofnodi yn y cyfarfod nesaf.

## 6. DIWEDDARIAD AR Y CANLLAWIAU AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM) O FEWN Y CWRICWLWM NEWYDD

Rhoddodd Libby Jones gyflwyniad i Aelodau CYSAG ar y Canllawiau uchod, gan gadarnhau bod Addysg Grefyddol wedi mynd drwy newidiadau sylweddol. Cyfeiriodd at y negeseuon ar gyfer CYSAG o ran y Maes Llafur Cytunedig a chynllunio y cwricwlwm. Nododd hefyd y negeseuon pwysig i ysgolion wrth gynllunio ar gyfer CGM, gan gynnwys defnydd o is-lensiau. Esboniodd hefyd, o dan Gyfraith Hawliau Dynol, y bydd y pwnc yn wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Bu iddi gloi drwy gyfeirio at y cyfle o ran dysgu proffesiynol.

Daeth yn amlwg o’r cyflwyniad bod y Canllawiau yn cyfeirio at yr angen am newidiadau mawr iawn, ac y byddai y pwnc CGM yn cynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Un newid arall oedd bod dilyn y pwnc yn fandadol o’r oedran 3-16, gyda mannau meithrin i gynnwys darpariaeth ar gyfer CGM. Ar y llaw arall, nodwyd ôl-16 mai optio i mewn i CGM fyddai disgybl. Cadarnhawyd y bydd fersiwn o’r Canllawiau, o dan embargo, ar gael cyn y Nadolig.

Ymhelaethodd ar y negeseuon pwysig i CYSAG

Mae maes llafur cytunedig yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, ac mae angen iddo fod mewn lle mewn da bryd er mwyn i’r ysgolion addysgu eu cwricwla newydd o fis Medi 2022 ymlaen. Gall y Canllawiau newydd fod yn sail i’r maes llafur, ond mae angen iddo beidio â bod yn rhy gaeth – efallai bydd yr is-lensiau o gymorth.

Mae angen trefnu Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig, sydd ag aelodaeth mor eang â phosib, a nodwyd yr angen i hysbysu ysgolion o’r bwriad hwn cyn gynted â phosib.

Holwyd ymhellach am yr is-lensiau, ble cadarnhawyd nad pynciau na themâu mohonynt, ond disgyblaethau neu bersbectifau. Nodwyd, wrth benderfynu ar themâu, bydd CGM yn cael eu harwain gan y safbwyntiau hyn.

Yn dilyn yr hyn a adroddwyd gan Libby Jones, nodwyd pwysigrwydd cael presenoldeb o Adran Addysg y Cyngor i roi CYSAG ar ben ffordd gyda y newid hyn. Cwestiynwyd a fyddai modd gweithio yn rhanbarthol, a nodwyd yr angen i Aelodau CYSAG ddeall beth yw cyfraniad GwE, rôl y Cyngor a sut mae modd cydweithio.

Gan y bydd y pwnc yn fandadol, ac yn rhan greiddiol o’r cwricwlwm newydd, nodwyd efallai y bydd angen cefnogaeth ar rai ysgolion i allu gwireddu hyn.

**PENDERFYNWYD** Oherwydd nad oedd cworwm, nid oedd modd i’r Pwyllgor wneud penderfyniad ond derbyniwyd y cyflwyniad a diolchwyd i Libby Jones am ei chyfraniad.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2020-2021

Cadarnhawyd bod drafft o’r Adroddiad Blynyddol ar y gweill ac y byddai yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf CYSAG i’w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** Oherwydd nad oedd cworwm, nid oedd modd i’r Pwyllgor wneud penderfyniad ond derbyniwyd diweddariad ar yr uchod ac awgrymwyd y ffordd ymlaen.

## 8. MATERION Y CCYSAGAU

Diolchwyd am Adroddiad Blynyddol y CCYSAGAU ar gyfer 2020-2021, Adroddiad Blynyddol Trysorydd y CCYSAGAU ar gyfer 2020- 2021, gan gynnwys y Datganiad o Gyfrifon a chofnodion y cyfarfod CCYSAGAU a gynhaliwyd 16 Mehefin 2021.

Cafwyd diweddariad o gyfarfod yr Hydref o CCYSAGAU a gynhaliwyd 23 Tachwedd 2021, ble bu iddynt dderbyn cyflwyniad ar y Cwricwlwm Newydd gan swyddog o Gonsortia Canol De Cymru, Dwyrain De Cymru a GwE. Adroddwyd yn y cyfarfod am y gefnogaeth oedd ar gael a chodwyd y pryder ei bod yn ymddangos bod CCYSAGAU De Cymru yn cael rhan greiddiol mewn cymhariaeth â'r Gogledd. Nodwyd yn benodol y pryder am y diffyg cefnogaeth gan GwE i CYSAG.

Cyfeiriwyd hefyd at y gyfres sydd wedi ei chyhoeddi gan Hodder i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, a gofynnwyd i'r neges gael ei lledaenu nad yw y gyfres o reidrwydd yn addas i Gymru gan nad ydynt wedi derbyn unrhyw fewnbwn o Gymru wrth ei chreu.

Yna trafodwyd yr angen i drefnu Cynhadledd Maes Llafur Cytûn cyn Medi 2022, ac awgrymwyd efallai y gellid cynnal y cyfarfod cyntaf ar Chwefror 1af. Cadarnhawyd fod y Gynhadledd yn gorff ar wahân i CYSAG ond y byddai yn gwneud synnwyr i barhau gyda'r un aelodaeth. Yn sgil hyn awgrymwyd efallai y byddai modd ysgrifennu at y cyrff crefyddol am enwebiadau gan fod nifer o seddi gwag ar y CYSAG a'r aelodaeth wedi dirywio mewn niferoedd.

**PENDERFYNWYD** Oherwydd nad oedd cworwm, nid oedd modd i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ond derbyniwyd yr adroddiadau er gwybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 p.m. a daeth i ben am 3.10 p.m.

**CADEIRYDD**

[Y Dyniaethau: Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb (gov.wales)]

# *MAES DYSGU A PHROFIAD* Y Dyniaethau

**Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu o ran y pedwar diben.**

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
3. Egwyddorion cynnydd
4. Disgrifiadau dysgu
5. Cynllunio eich cwricwlwm

# Cynllunio eich cwricwlwm

CYNNWYS

- Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol
- Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn
- Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill
- Themau trawsgwricwlaidd
- Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae hyn yn rhoi arweiniad penodol i'w ddefnyddio wrth ymgorffori dysgu o fewn y dyniaethau yn eich cwricwlwm. Dylai gael ei ddarllen ynghyd ag adran gyffredinol '**Cynllunio eich cwricwlwm**' sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu trwy bob maes dysgu a phrofiad (Meysydd).

## Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Rhaid i gwricwlwm ymwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Mae'r canlynol yn rhai egwyddorion allweddol y dylai lleoliadau ac ysgolion eu hystyried wrth gynllunio dysgu ac addysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes).

Gall dysgu yn y Maes hwn gynnig y cyfleoedd canlynol i ddysgwyr.

## *Sgiliau trawsgwricwlaidd*

### Llythrennedd

- Datblygu llafaredd trwy drafodaeth, chwarae rôl, cwestiynu a chyflwyniadau, ac addasu sgiliau llafaredd ar gyfer cynulleidfa a diben tra'n gwrando ar, a dadlau, gwahanol safbwyntiau.
- Datblygu pob arddull ysgrifennu, e.e. disgrifio, esbonio, trafod, gwerthuso ac ysgrifennu creadigol, ynghyd â defnyddio terminoleg a geirfa sy'n benodol i'r ddisgyblaeth.
- Sicrhau mynediad ac archwilio ystod o destunau o amrywiol leoedd a chyfnodau er mwyn dadansoddi tystiolaeth, meddwl yn feirniadol, dod i gasgliad, a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau.

### Rhifedd

- Datblygu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau byd go iawn gan gynnwys casglu data rhifol, trwy ddulliau ymchwil cynradd ac eilaidd.
- Dadansoddi a chynrychioli data mewn amrywiol ffyrdd.
- Cefnogi datblygiad rhifedd drwy roi cyfarwyddiadau cyfeiriadol manwl gywir wrth ddarllen map neu ddatblygu eu mapiau a'u llwybrau eu hunain.
- Ymwneud â chysyniadau megis ymwybyddiaeth gronolegol a graddfa.

### Cymhwysedd digidol

- Datblygu sgiliau digidol mewn meysydd megis defnyddio systemau gwybodaeth ddigidol (gan gynnwys systemau gwybodaeth ddaearyddol), defnydd o ffynonellau digidol, meddalwedd i ddadansoddi a chyflwyno data ansoddol a meintiol.
- Archwilio effaith technoleg ddigidol ar gymdeithasau a'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir yn yr oes ddigidol.

## *Sgiliau cyfannol*

### Creadigrwydd ac arloesedd

- Annog cyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau mewn ffyrdd creadigol ac arloesol, a dychmygu dyfodol posib yn seiliedig ar y dystiolaeth.
- Annog bod yn agored i wahanol syniadau a ffyrdd o feddwl, gan alluogi mynegi barn resymedig ynghylch y gwahaniaethau hyn.

### Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

- Datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol a deall y gorffennol a'r presennol yn ogystal â dychmygu dyfodol posib.
- Casglu, myfyrio a gwerthuso'n feirniadol y defnydd o ffynonellau a thystiolaeth.

### Effeithiolrwydd personol

- Annog gwaith tîm a bod yn gyfrannwr dibynadwy trwy drefnu a gweithredu ymholiadau.

- Gwerthuso, cyfiawnhau a mynegi ymatebion ystyriol mewn amrywiol ffyrdd.

### Cynllunio a threfnu

- Annog cynllunio a threfnu ymchwiliadau, gosod nodau, amcanion a meini prawf, casglu a defnyddio ystod o dystiolaeth, a myfyrio ar ddulliau.

## Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Dylai cwricwla ysgolion hybu dealltwriaeth lawn o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a ddyluniwyd i gefnogi datblygu dull mwy cysylltiol o ddysgu. Maen nhw wedi cael eu strwythuro o amgylch dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o gysyniadau allweddol sy'n eu galluogi i weld y tu hwnt i wybodaeth fel rhestr o ffeithiau digyswllt yn unig.

Dylid defnyddio'r datganiadau am yr hyn sy'n bwysig yn holistaidd er mwyn cynnig llwyfan eang a dwfn i gefnogi dysgwyr trwy eu taith addysgol yn y dyniaethau. Ni ddylai cwricwlwm drin y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar wahân, ac nid oes angen ymdrin â nhw mewn trefn neu gyfuniad arbennig. Mae'r datganiad cyntaf o'r hyn sy'n bwysig yn hybu ymchwil a darganfyddiad o fewn y Maes, tra bod yr ail yn annog dysgwyr i archwilio ac ystyried sut maen nhw ac eraill yn gweld, dehongli a chynrychioli profiadau dynol. Mae'r trydydd a'r pedwerydd datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn canolbwyntio ar agweddau allweddol o ddealltwriaeth yn y Maes hwn, sef perthynas pobl gyda'r byd naturiol a chyda'i gilydd. Mae'r datganiad terfynol o'r hyn sy'n bwysig yn rhoi pwyslais newydd ar rôl a gweithredoedd yr unigolyn mewn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfeirio at yr angen am ymwybyddiaeth gyson o stori leol y dysgwyr, stori Cymru yn ogystal â stori y byd ehangach, a galluogi dysgwyr ddod i ddeall natur gymhleth, lluosog ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol. Dylai dysgwyr fod wedi eu gwreiddio mewn dealltwriaeth o'r hunaniaethau, tirweddau a'r hanesion sy'n dod at ei gilydd i ffurfio eu *cynefin*. Bydd hyn nid yn unig yn eu galluogi i ddatblygu ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles, ond bydd hefyd yn datblygu dealltwriaeth o hunaniaeth pobl eraill a gwneud cysylltiadau gyda phobl, lleoedd a hanes mewn lleoedd eraill yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladolyn rhan greiddiol o'r

Maes, ac yn ffurfio rhan o'r egwyddorion allweddol a ddisgrifir isod sy'n ymwneud â dewis y cynnwys.

### *Dull cynllunio*

Mae hyblygrwydd i sut y gall ysgol ddewis strwythuro ei chwricwlwm, megis dull integredig, amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol neu ddisgyblaethol. Ar draws taith y dysgwyr o 3 i 16, dylai ysgolion gynnig cwricwlwm eang a chytbwys o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau yn gysylltiedig â hanes; daearyddiaeth; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae dealltwriaeth broffesiynol o ddiben y disgyblaethau a'u cydberthynas o fewn y Maes hwn yn agwedd hollbwysig.

Dylai cynllun cwricwlwm ysgolion ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol wrth ddethol cynnwys:

- safbwyntiau lleol, cenedlaethol a'r byd ehangach
- ehangder/ystod
- cydlyniad
- trylwyredd
- canolbwyntio
- sensitifrwydd

### Safbwyntiau lleol, cenedlaethol a'r byd ehangach

Sicrhau mynediad cyson i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ystod gwahanol gyfnodau datblygiad – ni ddylai'r dysgwyr ieuengaf ganolbwyntio'n unig ar astudiaethau lleol a'r dysgwyr hŷn ganolbwyntio'n unig ar safbwyntiau rhyngwladol; pan mae'n briodol ac ystyrlon dylai dysgwyr gael cyfleoedd i wreiddio eu dealltwriaeth o bwnc lleol ac yn ymwneud â'u cynefin eu hunain, a'i berthnasu i gyd-destunau Cymru gyfan a rhyngwladol.

Archwilio busnesau, diwylliannau, hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau a chymdeithasau yng Nghymru.

### Ehangder/ystod

- Dewis ystod o gyfnodau sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ddynoliaeth a'r byd yn y gorffennol a'r presennol.

- Dewis ystod o ddigwyddiadau, syniadau, credoau, pobl a phrosesau sydd wedi cael effaith sylweddol ar y ddynoliaeth a'r byd y gorffennol a'r presennol.
- Canolbwyntio ar brofiadau pobl gyffredin gan gynnwys rhai sydd wedi arfer cael eu tangynrychioli.
- Dewis ystod o ddigwyddiadau a newidiadau cyfoes o arwyddocâd moesol, gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol, amgylcheddol neu ddiwylliannol – gellir mabwysiadau dull hyblyg o astudio cyfnodau hanesyddol, ac nid yw'n dilyn y dylai dysgwyr ar gamau cynnydd penodol astudio cyfnodau mewn trefn gronolegol.

### Cydlyniad

- Sicrhau bod pynciau wedi cael eu trefnu i adlewyrchu rhesymeg y disgyblaethau academaidd, gan alluogi cynnydd o ddealltwriaeth gysyniadol. Dylid datblygu pynciau i sicrhau dealltwriaeth gysyniadol sy'n gynyddol dwfn a soffistigedig a galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau. Dylai lleoliadau/ysgolion osgoi dull di-theori, cyfnodol o ddysgu sy'n neidio rhwng pynciau digyswllt.

### Trylwyredd

- Dewis pynciau heriol i alluogi meddwl dwfn a myfyrio.

### Canolbwyntio

- Dewis nifer gyfyngedig o bynciau ymhob blwyddyn i sicrhau dyfnder ac ansawdd i'r dysgu, lle y gall pynciau orgyffwrdd er mwyn atgyfnerthu cysyniadau allweddol.

### Sensitifrwydd

- Ymateb yn sensitif ac yn graff i fydolygon crefyddol ac anghrefyddol ynghylch cymdeithas, cymunedau a diwylliannau, a deall sut y gellir dehongli'r rhain mewn gwahanol amserau, diwylliannau a lleoedd.

### *Cysyniadau disgyblaethol a chyd-destunau*

Mae'r pynciau o fewn y maes hwn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ond hefyd â'u corff penodol eu hunain o wybodaeth a sgiliau. Mae'r cynnwys, y cysyniadau a'r sgiliau a amlinellir yn y Maes hwn yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r disgyblaethau yn y Maes hwn yn cynnig golwg amrywiol ar y profiad dynol. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn annog dull holistaidd o ddysgu.

## Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Mae canllawiau manwl ar ddatblygu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn eich cwricwlwm ar gael.

## Hanes

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o’r disgyblaeth a’i gwerth
- datblygu dealltwriaeth o, a pharch tuag at, y syniad o wirionedd a pharch tuag at bobl yn y gorffennol
- datblygu gwerthfawrogiad o’r gorffennol ar wahanol raddfeydd, sy’n galluogi dysgwyr i adnabod eu ffordd trwy amser
- datblygu dealltwriaeth o ddehongliad hanesyddol a sgiliau ymdrin â ffynhonnell
- datblygu cynnwys cyfoethog ar draws y cyfnodau amser, a thrwy hyn gall dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o gronoleg trwy archwilio achos ac effaith, newid a chysondeb, tebygrwydd a gwahaniaeth, dehongliadau, defnyddio tystiolaeth ac arwyddocâd hanesyddol
- datblygu cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau llywodraethiant, economi, grym, arweinyddiaeth, amrywiaeth; diwylliant, ethnigrwydd, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, cyfiawnder, hawliau, goresgyniad, ideolegau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, strwythurau a threfniadaeth gymdeithasol, masnach, amaethyddiaeth a diwydiant, pŵer a phrotest, heddwch, gwrthdaro a chydweithrediad, chwyldro, datganoli ac ymerodraeth
- cyflwyno dysgwyr o bob oed i ystod o gyfnodau hanesyddol ar raddfa leol, cenedlaethol a byd-eang, gan wneud y cysylltiadau sy’n cefnogi datblygiad ‘map’ cronolegol manwl o’r gorffennol.

## Daearyddiaeth

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o ddisgyblaeth daearyddiaeth a’i gwerth
- cynnig cynnwys cyfoethog ar gyfer archwilio tirweddau ffisegol a dynol, a chyd-destun ar gyfer achosion a chanlyniadau rhyngberthnasau a rhyngddibyniaethau ffisegol a dynol sy’n nodweddu ein byd modern
- cynnig cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio materion cynaladwyedd, newid hinsawdd, dewisiadau egni, natur, peryglon a thrychinebau naturiol a risgiau peryglon, llygredd, prinder adnoddau naturiol, diogelwch bwyd, poblogaeth, hunaniaeth, ethnigrwydd, mudo, aneddiadau, globaleiddio, prynwriaeth a masnach, cynlluniau i drechu tlodi, anghyfartaledd ac annhegwch, gwahaniaethau rhwng gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygiad
- darparu sgiliau i’r dysgwyr gwestiynu, defnyddio a dadansoddi mapiau, delweddau a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol

- darparu sgiliau i'r dysgwyr ffurfio cwestiynau ymchwil, ac i gasglu, trin a chyflwyno data fel eu bod yn gallu gwerthuso a meddwl yn feirniadol am broblemau a materion

### Astudiaethau cymdeithasol

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r disgyblaeth a'i gwerth
- hybu dealltwriaeth gysyniadol o'r byd trwy ddysgu am bobl a'u gwerthoedd, mewn cyfnodau, lleoedd a sefyllfaoedd gwahanol
- cynnig cyd-destunau cyfoethog i archwilio materion cymdeithasol, hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau a chyfundrefn cymdeithasol
- hybu cyfranogiad gweithredol ac ymwneud â materion cymdeithasol trwy ymholi cymdeithasol, trafodaethau a gweithredu cymdeithasol
- ddatblygu dealltwriaeth o sut mae systemau llywodraeth yng Nghymru yn gweithio gan ystyried eu heffaith ar fywydau pobl, a sut maen nhw'n cymharu gyda systemau eraill
- archwilio cysyniadau llywodraethiant, hawliau, cyfartaledd, anghyfartaledd, ethnigrwydd, cenedl a thlodi

### Astudiaethau busnes

Dylai cynllun cwricwlwm ysgol:

- ddatblygu dealltwriaeth o'r disgyblaeth a'i gwerth
- cyflwyno dysgwyr i'r realiti economaidd sy'n llywio economi Cymru a'r economi byd-eang, gan eu galluogi i werthfawrogi bod y realiti hwn yn newid yn gyson, a gwerthfawrogi'r effaith mae hyn yn ei gael ar fywydau pobl ac ar yr amgylchedd
- archwilio'r cryfderau a meysydd i'w gwella, llwyddiannau a methiannau busnesau ac economïau, wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n llywio ffyniant cymunedau ac felly yn llywio disgwyliadau pobl ar gyfer y dyfodol
- archwilio economi cyfredol Cymru, gan gynnwys treuliant, cynhyrchiant, lles pobl yn eu gwaith, effaith arloesedd a thechnoleg ar fusnesau a'r amgylchedd, ac effeithiau newidiadau demograffig i'r gweithlu

## *Ystyriaethau ar gyfer darparu profiadau dysgu*

Mae'r Maes hwn yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddysgu y tu hwnt i furiau'r ysgol. Dylai cynllunio cwricwlwm ysgol ganiatáu i ddysgwyr o bob oed brofi ystod o ysgogiadau sy'n eu cyffroi a'u hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig, ac i archwilio, darganfod a chwestiynu trwy'r canlynol.

Ystod o gyfleoedd i ddysgu y tu allan er mwyn:

- profi ynghyd â myfyrio ar ryfeddod y byd naturiol
- ymwneud ag amrywiaeth o dirweddau, nodweddion hanesyddol a daearyddol, amgylcheddau a lleoedd
- dysgu mewn ardaloedd naturiol lleol a safleoedd hanesyddol
- cynnal ymchwiliadau a gwaith maes yn annibynnol yn ogystal ag ar y cyd, mewn partneriaethau â sefydliadau, grwpiau ac unigolion lle mae'n briodol
- ymwneud â safleoedd hanesyddol, diwylliannol a chrefyddol, gan gynnwys lleoedd sy'n arwyddocaol i'r rhai y mae eu ffydd a'u cred yn bwysig iddyn nhw

Ystod o gyfleoedd i ymweld ac archwilio gan gynnwys:

- safleoedd diwylliannol a threftadaeth, e.e. henebion, safleoedd crefyddol a hanesyddol sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu
- llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd i gael eu defnyddio i gefnogi dysgu yn seiliedig ar ymholi
- lleoedd o arwyddocâd gwleidyddol, crefyddol neu ysbrydol
- busnesau a lleoedd gwaith
- lleoliadau rhithiol sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu

Ystod o gyfleoedd i ymwneud ag:

- ymchwil strwythuredig a dysgu cydweithredol
- arteffactau a thestunau o arwyddocâd hanesyddol a chrefyddol
- technoleg a chyfryngau digidol a ffisegol
- straeon, celf, drama, dawns, cerddoriaeth a bwyd sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu
- unigolion, arbenigwyr, grwpiau a sefydliadau sydd â photensial arbennig i gynnig cyd-destunau sy'n symbylu dysgu
- gweithio gyda phobl broffesiynol o fewn y byd treftadaeth a datblygu cydnabyddiaeth o werth safleoedd treftadaeth/orielau/amgueddfeydd
- pobl sydd â phrofiad o grefydd a bydolygon byw
- arweinwyr gwleidyddol, busnes, cymunedol a/neu diwylliannol
- grwpiau neu fudiadau megis elusennau, carfanau pwyso a mudiadau dielw

Ystod o gyfleoedd i arsylwi neu gymryd rhan mewn:

- dathliadau allweddol, traddodiadau a'r diwylliant amrywiol yng Nghymru
- dadleuon ffurfiol ac anffurfiol
- gweithgareddau menter ac entrepreneuraidd
- prosiectau gweithredu cymdeithasol
- dathliadau allweddol, traddodiadau a ffyrdd o fyw yn y byd ehangach

### Enghreifftio ehangder

Darperir y canlynol fel enghreifftiau o sut y gallech archwilio dysgu testunol gwahanol yn y Maes hwn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Gallai dysgwyr archwilio esblygiad meddwl democrataidd a strwythurau a arweiniodd at sefydlu'r Senedd, o'r Hen Roeg drwy Ddatganiad Annibyniaeth America a hynt cyfansoddiad y DU. Mae hanes lleol, Cymreig a'r byd wedi eu cysylltu, eu siapio ac yn cael eu gwerthfawrogi drwy ddigwyddiadau megis Gwrthryfel Glyndŵr, Rhyfel Cartref Sbaen a Rhyfeloedd Byd yr unfed ganrif ar hugain. Gellir gwerthfawrogi'r argyfwng hinsawdd yn well drwy archwilio'r chwyldro diwydiannol, daearyddiaeth a thopograffi unigryw Cymru, a chysylltiadau rhyngwladol. Fel dinasyddion gwybodus, bydd y dysgwyr yn archwilio sut mae llywodraeth a'r broses o wneud penderfyniadau yn gweithio yng Nghymru a thu hwnt, ac yn cael eu grymuso i gyfrannu, craffu a herio.

## Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Dylai cynllunio cwricwlwm ysgol ganolbwyntio ar gysylltiadau dilys rhwng y Maes hwn a Meysydd eraill.

**Celfyddydau Mynegiannol**
Mae celf, cerddoriaeth, dawns, theatr, ffurfiau cyfryngol a llenyddol yn ddarnau gwerthfawr o dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau yn y dyniaethau ac yn gyfryngau ar gyfer mynegi dehongliadau a safbwyntiau pobl. Mae'r byd naturiol, y gorffennol a'r presennol oll yn ysgogi ac yn cynnig cyd-destunau ym Maes Dysgu y Celfyddydau Mynegiannol. Trwy'r gorffennol a'r presennol mae'r celfyddydau mynegiannol wedi bod yn bwysig wrth lywio diwylliant a chymdeithasau. Mae archwilio'r celfyddydau o wahanol gyfnodau, diwylliannau a chymdeithasau, gan gynnwys o Gymru (e.e. Eisteddfod), yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau pobl eraill yn ogystal â'u diwylliant eu hunain. Gall archwilio cysyniadau cymdeithasol a moesol, cynaladwyedd a busnes ysgogi *gwaith creadigol*.

**Iechyd a Lles**

Mae'r ddau Faes yma yn cysylltu i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o *hunaniaeth*, cymunedau, cymdeithasau, normau a *gwerthoedd* cymdeithasol, a *dylanwadau cymdeithasol*. Maen nhw'n cefnogi dealltwriaeth o ddinasyddiaeth, hawliau, parch a chyfartaledd. Mae'r Maes hwn yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o sut y gall penderfyniadau gan unigolion a rhai ar y cyd gefnogi ymatebion moesegol a chynaladwy i gyfleoedd a wynebir gan ddynoliaeth yn gyffredinol ac yng Nghymru yn benodol.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae ieithoedd a llenyddiaeth yn chwarae rhan allweddol mewn hunaniaeth ac yn gallu bod o gymorth i lywio a dylanwadu ar ddatblygiad cymunedau a chymdeithasau. Mae llenyddiaeth yn darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer ymchwiliadau mewn dyniaethau, ac yn gallu bod yn destun yr ymchwiliadau hyn. Gall dysgwyr archwilio llenyddiaeth o ystod o ddiwylliannau a chymdeithasau, o'r gorffennol a'r presennol, o'r ardal leol, o Gymru ac o weddill y byd.

## Mathemateg a Rhifedd

Mae Maes dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnig cyd-destunau dilys ar gyfer cymhwyso mathemateg a sgiliau rhifedd. Mae ymholiadau yn y dyniaethau yn defnyddio ystod o ddata ansoddol a meintiol. Yn aml bydd hefyd yn cynnwys casgliad o ddata cynradd gan ddefnyddio dulliau samplu, a chynrychioliad a dadansoddiad data ac ystadegau mewn amrywiaeth o ffurfiau. Cynigir cyfleoedd i ddysgwyr drefnu a dosbarthu data ac adnabod tueddiadau, patrymau ac anomaleddau. Mae cefnogi entrepreneuriaeth, cymhareb a graddfa, cyllid, talgrynnu ac archebu hefyd yn berthnasol.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gan y ddau Faes yma ddulliau ac egwyddorion ymchwilio tebyg ac eto'n benodol i'r Maes. Serch hynny mae gwaith maes, er enghraifft lle mae dysgwyr yn sylwi ar bethau byw yn eu cynefinoedd naturiol gan arwain at gasglu data i fesur a chymharu bioamrywiaeth, yn cefnogi dysgu yn y ddau Faes. Gall gwybodaeth am ymchwiliadau gwyddonol a datblygiadau technolegol cyfredol ac yn y gorffennol, a'u heffaith ar gymdeithas, hefyd gefnogi dysgwyr

yn eu gallu i chwilio a hidlo tystiolaeth. Mae gan ddatblygiadau gwyddonol a thechnolegol effaith sylweddol ar gymdeithasau dynol ac ar ein perthynas â'r byd naturiol. Gall gwyddoniaeth a thechnoleg gynnig datrysiadau ac ymatebion i'r heriau mae dynoliaeth yn eu hwynebu yn y byd modern. Mae gan agweddau eraill ar wyddoniaeth a thechnoleg gysylltiadau cynhenid â'r dyniaethau yn nhermau perthynas ag elfennau megis daearyddiaeth ffisegol a gwybodaeth am ddefnyddiau naturiol a'r dull o'u prosesu, a dylai'r cysylltiadau hyn gael eu harchwilio. Mae'r economi digidol yn ddylanwad grymus wrth lywio cymdeithasau, economïau a bywydau pobl yn y byd modern.

## Themau trawsgwricwlaidd

### *Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn*

Mae cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn greiddiol i'r Maes hwn ac yn ffurfio rhan o'r egwyddorion allweddol sy'n ymwneud â dewis cynnwys.

### *Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn y Maes hwn*

Mae gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i yrfaoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Bydd dysgwyr yn dechrau drwy ystyried y cydberthnasau rhwng lleoliadau a byd gwaith drwy nodi nodweddion eu cymuned leol. Wrth iddyn nhw ddatblygu drwy'r continwwm 3 i 16 oed, dylai dysgwyr archwilio gyrfaoedd y gorffennol a pham nad ydyn nhw'n bodoli mwyach, a myfyrio ar y ffactorau a all lywio a dylanwadu ar yrfaoedd y dyfodol.

Drwy ddadansoddi *gwybodaeth am y farchnad lafur*, gall dysgwyr ddechrau meithrin dealltwriaeth o'r newidiadau yn eu marchnadoedd llafur lleol a chyd-destun cyfleoedd presennol yn lleol a thu hwnt. Gall y broses ddysgu hon gefnogi dysgwyr i archwilio eu *cynefin*; gallan nhw ddeall yr effaith y gall hyn ei chael ar eu cymunedau eu hunain.

Dylai dysgwyr archwilio anghydraddoldebau mewn cyd-destunau cysylltiedig â gwaith o'r gorffennol a'r presennol. Wrth iddyn nhw ddatblygu, dylen nhw feithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o hawliau a chyfrifoldebau cyflogaeth, entrepreneuriaeth foesegol, moesau busnes a phrosesau ac

arferion diwydiannol gwyrdd cynaliadwy. Bydd hyn yn paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith.

### *Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth yn y Maes hwn*

Gall profiadau yn y Maes hwn fod o gymorth i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o’u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru, amrywiaeth yng Nghymru, ac ymwybyddiaeth o sut y dylanwadir ar eu hawliau eu hunain gan ddehongliadau o hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Yn y Maes hwn dylid cael cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig at Hawliau’r Plentyn (CCUHP) ac i annog dysgwyr i gydnabod eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill.

## Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

### *Cyflwyniad*

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau (Maes). Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd.

Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru.

### *Diben y canllawiau hyn ar grefydd, gwerthoedd a moeseg*

Cafodd y canllawiau hyn ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hysgrifennu gan ymarferwyr ac arbenigwyr addysg grefyddol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol o ran sut y gellir addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Mae’r canllawiau’n pwysleisio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan annatod o’r Maes hwn ac yn amlinellu cyfraniad unigryw a phenodol y pwnc i’r Cwricwlwm i Gymru.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am statws cyfreithiol y canllawiau hyn yn yr adran ar ddeddfwriaeth yn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. [embed link]

Mae canllawiau ychwanegol mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ysgolion a lleoliadau gwirfoddol a gynorthwyir wedi cael eu cynhyrchu gan yr Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.

## *Cynulleidfa*

Mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau wedi cael eu hysgrifennu i fod yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio cwricwlwm. Bydd yn rhaid i'r canlynol ystyried y canllawiau wrth gynllunio cwricwlwm:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy’n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56)
- awdurdod lleol yng Nghymru

Gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau anghrefyddol, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nid oes rhaid i'r cyrff hyn ystyried y canllawiau ond gall fod yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol iddyn nhw gyfeirio atyn nhw er mwyn deall cynnwys cwricwlwm lleoliad penodol yn well.

## *Maes llafur cytunedig*

Gan mai pwnc y penderfynir arno'n lleol yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y maes llafur cytunedig sy'n pennu'r hyn y dylid ei addysgu yn y pwnc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n addysgu'r maes llafur cytunedig.

Felly, mae'r canllawiau hyn hefyd wedi'u bwriadu ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am baratoi maes llafur cytunedig, y mae'n rhaid iddyn nhw ystyried y canllawiau hyn, gan gynnwys:

- yr awdurdod lleol sydd â swyddogaeth o ran mabwysiadu'r maes llafur cytunedig a luniwyd gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig
- y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig
- y corff o bersonau a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i baratoi maes llafur cytunedig os na lwyddodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig i wneud hynny

Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur ac argymell maes llafur priodol i'r awdurdod lleol er mwyn iddo ei fabwysiadu. Dylai'r maes llafur cytunedig ar gyfer pob awdurdod lleol gael ei adolygu bob pum mlynedd.

Ar ôl i faes llafur cytunedig gael ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Os bydd awdurdod lleol yn dymuno mabwysiadu neu addasu'r canllawiau hyn fel eu maes llafur cytunedig, caiff wneud hynny.

## *Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru*

Gall Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru wneud cyfraniad unigryw tuag at gyflawni'r **pedwar diben** i bob dysgwr. Fel y cyfryw, mae'r canllawiau hyn yn helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu darpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n paratoi dysgwyr yng Nghymru, fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus, ar gyfer bywyd a gwaith mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym.

Lleolir Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau ac mae'n ymgorffori amrywiaeth o ddulliau disgyblaethol y gall dysgwyr eu defnyddio i ymgysylltu mewn ffordd feirniadol ag amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol. Ymhlith y dulliau disgyblaethol sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwinyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg ac anthropoleg. Hefyd, ceir

cydberthnasau cadarn rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r disgyblaethau eraill Maes y Dyniaethau yn ogystal â Meysydd eraill.

Mae cysyniadau'n bwysig mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg am eu bod yn syniadau canolog sy'n helpu dysgwyr i ddeall a dehongli profiadau dynol, y byd naturiol a'u lle eu hunain ynddo. Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy amrywiaeth o is-lensys sy'n cyfuno i ffurfio lens ddisgyblaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r cysyniadau a'r is-lensys hyn wedi'u nodi yn y canllawiau hyn.

O fewn Cwricwlwm i Gymru, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, o ran cynnwys ac addysgeg; nid oes a wnelo'r pwnc â gwneud dysgwyr yn 'grefyddol' neu'n 'anghrefyddol'. Daw'r ymadrodd 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' o gyfraith achosion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sicrhau ei bod yn rhaid i bob dysgwr gael cynnig cyfleoedd drwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ymwneud â gwahanol grefyddau a safbwyntiau athronyddol anghrefyddol yn eu hardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal â'r byd ehangach.

## *Datblygiad ysbrydol*

Un o nodweddion **pedwar diben** y cwricwlwm yw y caiff dysgwyr eu cefnogi i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. ac mae gan Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg lawer o gyfraniadau gwerthfawr ac unigryw i'w gwneud. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'u nodi yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig ac maen nhw'n cynnwys y cysyniadau allweddol ar gyfer pob Maes.

Yng nghyd-destun Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae datblygiad ysbrydol yn ymwneud â'n gallu naturiol i chwilio am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd, ei fynegi a'i ddeall, ac i gwestiynu pwy ydym ni a pham rydym ni yma. Gall datblygiad ysbrydol gynnwys crefydd neu beidio. Drwy brofi cydberthnasau a myfyrio arnyn nhw, gall datblygiad ysbrydol ddod i'r amlwg yn y canlynol: hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill; cysylltiadau â'r byd ehangach a'r byd naturiol (ac, i rai pobl, â phŵer uwch neu realiti eithaf);

creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin; archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas.

### Hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- meithrin ymdeimlad o'u natur unigryw a'u gwerth
- myfyrio ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain, gan fynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain
- datblygu dyheadau a dysgu dygymod â siom
- dangos empathi ac ystyriaeth at eraill
- datblygu trugaredd a helpu eraill
- datblygu llais a gwrando ar leisiau pobl eraill a'u parchu
- meithrin cydberthnasau da
- siarad amdanyn nhw eu hunain mewn perthynas â phobl eraill, y byd a/neu bŵer uwch neu realiti eithaf
- meithrin ymwybyddiaeth o gredoau, dysgeidiaeth ac arferion pobl eraill, a pharch tuag atyn nhw, yn ogystal â'r gallu i fynegi eu rhai nhw eu hunain
- ystyried effaith credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol ar fywydau unigolion, y gymuned leol a chymdeithas ehangach

### Cysylltu â'r byd ehangach a'r byd naturiol

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- datblygu gwerthfawrogiad o'r ffaith eu bod yn perthyn i'w hardal leol, i Gymru ac i'r byd ehangach
- profi'r byd naturiol, gwerthfawrogi'r amgylchedd a gweithio tuag at ddyfodol cynaladwy i bawb
- profi cyfoeth yr ysgogiadau o'u cwmpas drwy ddefnyddio'r synhwyrau
- profi bod yn bresennol yn y foment
- datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas, a'u lle ynddo
- gwneud synnwyr o'u profiad o'r byd naturiol a chydberthnasau dynol

### Creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- meithrin creadigrwydd a defnyddio eu dychymyg
- profi rhyfeddod neu gael eu syfrdanu gan bethau
- meithrin chwilfrydedd a datblygu mewnwelediad

### Archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas

Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- gofyn, ystyried a myfyrio ar y cwestiynau eithaf (y cwestiynau ‘mawr’ ynghylch bywyd)
- darganfod ystyr a phwrpas yn eu bywydau eu hunain
- profi'r hyn sydd y tu hwnt i'r cyffredin

Gall datblygiad ysbrydol hefyd ddigwydd wrth i ddysgwyr ymgysylltu â'u cynefin, a gall ddigwydd mewn bywyd pob dydd yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

## *Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

Bwriedir i'r adran hon gefnogi pob un o'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg orfodol o fewn y Maes hwn yn y cwricwlwm. Mae'n arbennig o berthnasol i ymarferwyr, lleoliadau a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog, a gall hefyd helpu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i ddatblygu'r maes llafur cytunedig.

Wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm, rhaid cynnwys cyfleoedd i ddysgu ac ystyried **themâu trawsbynciol** o fewn y Cwricwlwm i Gymru lle bo hynny'n briodol. Y themâu trawsbynciol hyn yw: addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith, hawliau dynol, amrywiaeth, cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hefyd yn bwysig ystyried **sgiliau trawsgwricwlaidd** llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â'r **sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben** (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu) wrth gynllunio'r cwricwlwm. Wrth gwireddu eu cwricwlwm, bydd angen i ysgolion a lleoliadau benderfynu ar y ffordd orau o gynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Er enghraifft, gellir cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd integredig, amlddisgyblaethol, ryngddisgyblaethol neu ddisgyblaethol. Dylid gwerthuso'r dull o gynllunio'r cwricwlwm yn rheolaidd yn unol â chanllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Hefyd, rhaid i bob ysgol a lleoliad ystyried y maes llafur cytunedig lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm.

## *Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r pedwar diben*

Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru mae'r **pedwar diben**, sy'n allweddol wrth lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac, fel y cyfryw, dylid canolbwyntio arnyn nhw ym mhob agwedd ar ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r pedwar diben yn nodi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr.

Erbyn iddyn nhw gyrraedd 16 oed, dylen nhw fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Ym Maes y Dyniaethau, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfrannu at gyflawni pedwar diben y cwricwlwm.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg orfodol yn gwneud cyfraniad pwysig ac unigryw at gyflawni'r pedwar diben drwy roi cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:

- archwilio ac ymwneud â chwestiynau eithaf ac athronyddol ynghylch ystyr, arwyddocâd a phwrpas bywyd, ac am natur meddwl bodau dynol a'r bydysawd, a'r cysylltiadau rhyngddyn nhw
- ymgymryd ag ymholiadau ac ymwneud â ffynonellau doethineb ac athroniaethau sy'n eu hannog i archwilio heriau, cyfleoedd ac ymatebion bodau dynol yng nghyd-destun eu cynefin, yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach, yn ogystal â'u helpu i werthuso eu safbwyntiau eu hunain a rhai pobl eraill
- datblygu a mynegi eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, a fydd yn eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes yn y byd plwraliaethol ac amrywiol hwn
- defnyddio eu gwybodaeth am gredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol sefydliadol a phersonol, a'u dealltwriaeth ohonyn nhw, i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain ac am y ffordd y gallen nhw wneud penderfyniadau cymdeithasol a phersonol pwysig
- ystyried ym mha ffyrdd y mae crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiadau dynol drwy gydol hanes, fel y gallan nhw wneud synnwyr o'u lle yn y byd, dychmygu dyfodol posibl a chreu atebion cyfrifol sy'n ystyried anghenion a hawliau amrywiol pawb
- gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn mynd i'r afael â materion egwyddorol a moesol

hanesyddol a chyfoes sy'n herio eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o grefydd a chred, diwylliant, cymuned, eu cynefin, Cymru a'r byd ehangach, nawr ac yn y gorffennol. Gall hyn helpu i feithrin ymdeimlad o le ac o berthyn

- ymateb yn sensitif i grefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, ac archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach, a'r ffordd y gallai'r rhain effeithio ar eu gweithredoedd a'u dewisiadau
- datblygu gwerthoedd pendant a sefydlu eu credoau egwyddorol a'u hysbrydolrwydd drwy archwilio crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ynghylch amrywiaeth o faterion. Gall hyn eu galluogi i ffurfio cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chyd-barch
- trafod eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill ar amrywiaeth o faterion, a myfyrio arnyn nhw. Gall hyn eu helpu i feithrin eu lles meddyliol, emosiynol ac ysbrydol drwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi

## *Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig*

Cyn y gellir dechrau gwneud unrhyw waith cynllunio manwl, mae'n hanfodol i ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion ystyried y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Dyniaethau, sy'n cyfrannu at sicrhau bod dysgwyr yn gwireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Dylai ymarferwyr ac arweinwyr hefyd ystyried y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn Meysydd eraill lle y gall Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyfrannu at y dysgu.

## *Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

Mae'r **datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn** yn galluogi dysgwyr i archwilio amrywiaeth eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol, ac ymgysylltu'n feirniadol â nhw. Dylid ystyried y cysyniadau hyn yn ofalus a dylen nhw fod yn sail ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.

Wrth ystyried cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau wneud y canlynol:

- datblygu dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth a'i gwerth
- darparu cyd-destunau cyfoethog i ddysgwyr fod yn chwilfrydig, archwilio cwestiynau eithaf a cheisio deall y cyflwr dynol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio, a phrofi rhyfeddod mewn amrywiaeth o gyd-destunau ystyrlon bywyd go iawn

- datblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ymchwilio i gysyniadau crefydd, crefydd bob-dydd, bydolygon, seciwlaredd, ysbrydolrwydd, safiad mewn bywyd, hunaniaeth a diwylliant er mwyn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o gredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol
- darparu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer ystyried cysyniadau cred, ffydd, gwirionedd, pwrpas, ystyr, gwybodaeth, ffynonellau awdurdod, yr hunan, tarddiad, bywyd, marwolaeth a realiti eithaf. Gall hyn alluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o gredoau personol a sefydliadol ynghylch natur bywyd a'r byd o'u cwmpas
- datblygu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau hunaniaeth, perthyn, cydberthnasau, y gymuned, cynefin, amrywiaeth, plwraliaeth a chydgysylltiad. Gall hyn alluogi dysgwyr i feithrin ymdeimlad o'r hunan ac ysbrydolrwydd
- archwilio cysyniadau cydraddoldeb, cynaliadwyedd, goddefgarwch, rhyddid, rhagfarn, gwahaniaethu, eithafiaeth, da a drwg. Gall hyn helpu dysgwyr i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan gymdeithas
- adlewyrchu cysyniadau a chyd-destunau crefyddoldeb, arferion, defod, traddodiad, addoli, cysegredigrwydd, symbolaeth a dathlu er mwyn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o grefydd a chred
- darparu cyd-destunau cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau moeseg, moesoldeb, cyfiawnder, cyfrifoldebau, awdurdod, dynoliaeth, hawliau, gwerthoedd a gweithredu cymdeithasol

## *Lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar lens ddisgyblaethol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gallan nhw helpu ysgolion a lleoliadau i ystyried cynnwys perthnasol wrth gynllunio eu cwricwlwm. Yn y canllawiau hyn, mae lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i rhannu'n nifer o is-lensys a ddefnyddir i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'u harchwilio. Mae'r is-lensys yn gydgysylltiedig ac ni fwriedir iddyn nhw fod yn unedau nac yn destunau. Maen nhw'n seiliedig ar gorff cydnabyddedig o wybodaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau ehangder a dyfnder digonol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau. Mae'r is-lensys yn cyd-fynd â'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac maen nhw hefyd yn berthnasol i Feysydd eraill ac i'r gwaith o wireddu'r pedwar diben. Maen nhw'n helpu ysgolion a lleoliadau i adnabod agweddau arwyddocaol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm.

Ymhlith yr is-lensys o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae:

- Chwilio am ystyr a phwrpas
  Sut mae pobl yn ymateb i gwestiynau dyfnach bywyd er mwyn deall y cyflwr dynol.

- Y byd naturiol a phethau byw
  Sut a pham mae pobl yn dangos gofal a chyfrifoldeb am y byd ac yn cael eu rhyfeddu gan fyd natur.

- Hunaniaeth a pherthyn
  Beth sy'n ein gwneud ni yn ni, fel pobl, cymunedau a dinasyddion yn byw mewn byd amrywiol.

- Awdurdod a dylanwad
  Sut a pham mae gwahanol fathau o awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl.

- Cydberthnasau a chyfrifoldeb
  Sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd, a pham mae'n bwysig meithrin cydberthnasau iach.

- Gwerthoedd a moeseg
  Sut a pham mae pobl yn gwneud dewisiadau moesol a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu gweithredoedd.

- Taith bywyd
  Beth mae pobl yn ei brofi fel rhan o daith bywyd, a'r ffordd y caiff y profiadau eu cydnabod.

## *Cynnydd dysgwyr a theithiau dysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

**Mae cynnydd dysgwyr** yn sbardun pwysig ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm. Adlewyrchir hyn yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn y **disgrifiadau dysgu ar gyfer Maes y Dyniaethau**, sy'n helpu i roi arweiniad manylach i ymarferwyr.

Er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd o 3 i 16 oed mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Maes hwn, rhoddir enghraifft o 'daith ddysgu' ar gyfer pob is-lens. Mae'r teithiau dysgu hyn yn dangos sut y gall dysgwr feithrin dealltwriaeth o gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys cydgysylltiedig amrywiol, a gallan nhw fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio cwricwlwm, ochr yn ochr â'r disgrifiadau dysgu ar gyfer Maes y Dyniaethau. Maen nhw wedi ystyried y disgrifiadau dysgu ac maen nhw'n annog ysgolion a lleoliadau i fod yn greadigol ac yn hyderus wrth gynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio eu cwricwlwm. Nid yw'r teithiau dysgu yn cynnig cyfres amgen o ddisgrifiadau dysgu, ac nid ydyn nhw ychwaith yn cynnig pwyntiau cyfeirio na meini prawf penodol ar gyfer cyflymder cynnydd, ac ni ddylid eu defnyddio felly. Adlewyrchir pob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn ar draws y teithiau dysgu.

- Taith ddysgu enghreifftiol 1: chwilio am ystyr a phwrpas
  Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd' ac 'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl'. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill drwy'r is-lens hon hefyd.

  Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

  Mae a wnelo'r daith hon â 'chwestiynau dyfnach bywyd'. Ar y camau dysgu cynnar, bydd dysgwyr yn dechrau gofyn cwestiynau dyfnach amdanyn nhw eu hunain ac eraill, ac am y byd naturiol a'r pethau byw o'u cwmpas (er enghraifft, 'Pwy ydw i?' 'Pam mae pethau'n marw?'), yn ogystal â gwrando ar farn pobl eraill. Ymhellach ar hyd y daith hon, byddan nhw'n casglu ac yn trafod mewnwelediad crefyddol ac anghrefyddol ac yn ystyried eu barn, eu safbwyntiau a'u dehongliadau eu hunain, a rhai pobl eraill, mewn ffordd fwyfwy soffistigedig. Yn ddiweddarach, gellir rhannu, trafod a gwerthuso materion yn ymwneud â gwirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth wrth i ddysgwyr

ystyried amrywiaeth o gwestiynau heriol am y materion hyn yn ddyfnach (er enghraifft bodolaeth da a drwg, natur dioddefaint, defnyddio cyfoeth). Gallan nhw gydnabod bod ymatebion i'r fath gwestiynau yn gymhleth ac, yn aml, nad ydyn nhw’n gyflawn nac yn bendant.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘dylanwad, parhad a newid’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau gwybod a mynegi'r hyn y maen nhw’n ei hoffi a'r hyn nad ydyn nhw’n ei hoffi, yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus ac yn drist, a'u gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag ymateb i syniadau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith, gallan nhw adnabod a thrafod mewnwelediad crefyddol ac anghrefyddol mewn perthynas â theimladau ac anghenion bodau dynol, gan gynnwys yr hyn sy'n dylanwadu arnyn nhw a'r ffyrdd y cânt eu mynegi yn eu bywydau eu hunain ac ym mywydau pobl eraill. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddod i adnabod parhad a newid mewn ymatebion i gwestiynau am ystyr a phwrpas mewn bywyd, yn eu bywydau eu hunain ac mewn cymdeithas a diwylliant, ar adegau gwahanol ac mewn lleoedd gwahanol. Maen nhw’n gwerthuso gwerthoedd a syniadau cyfoes perthnasol mewn perthynas â hunan-werth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd ag ‘ymdrechion a chyfraniadau bodau dynol’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r bobl a'r ‘syniadau mawr’ sydd wedi llywio eu hardaloedd lleol a'u bywydau pob dydd. Ymhellach ar hyd eu taith, byddan nhw’n dychmygu ac yn trafod yr hyn y gallan nhw ei gyfrannu nawr ac yn y dyfodol, ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r gydberthynas rhwng dyhead ac arferion, gan ystyried amrywiaeth o gyfraniadau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol ar yr un pryd. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallan nhw wneud cysylltiadau cynyddol gymhleth rhwng agweddau ar iechyd a lles, anghenion a gofynion y byd sydd ohoni, a'u hymdrechion eu hunain i chwilio am ystyr a phwrpas.

- Taith ddysgu enghreifftiol 2: y byd naturiol a phethau byw
  Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi’i ddylanwadu gan

brosesau a gweithredoedd dynol' ac 'Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol'. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon â 'gofal, ystyriaeth a pharch'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos gofal a pharch tuag at y byd naturiol a'r pethau byw o'u cwmpas. Ymhellach ar hyd eu taith, gallan nhw adnabod sut a pham y byddan nhw ac eraill yn dangos gofal, pryder a pharch, yn ogystal ag ystyried safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr ddechrau codi cwestiynau egwyddorol mewn perthynas â gweithgarwch dynol, natur a lle, a'u hystyried yn feirniadol, gan fynd i'r afael ag ymatebion crefyddol, anghrefyddol a'u hymatebion eu hunain.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'rhyfeddod'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau cael eu rhyfeddu gan fyd natur, a bydd hyn yn datblygu wrth iddyn nhw archwilio'r byd o'u cwmpas, gan arsylwi a gofyn cwestiynau. Ymhellach ar hyd eu taith, bydd ymdeimlad o gymhlethdod bywyd a'i gydgysylltiad yn tyfu, yn ogystal ag ymdeimlad o gyfrifoldeb gweithredol. Yn ddiweddarach, bydd profiadau o ryfeddod yn dod yn fwy cynnil drwy ymgysylltu'n ddyfnach ac yn ehangach â lleoedd a phobl eraill, yn ogystal â'r byd naturiol a phethau byw.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'chyfrifoldeb a gweithredu'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o bethau byw y tu hwnt iddyn nhw eu hunain, a'r ffaith y gall eu gweithredoedd effeithio arnyn nhw. Ymhellach ar hyd eu taith, gallan nhw ddod i wybod 'straeon' crefyddol ac anghrefyddol am leoedd lleol, y byd naturiol a phethau byw, a sut maen nhw'n gysylltiedig â'u hunain ac eraill. Drwy straeon crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, am ddechreuadau'r

byd), gall dysgwyr ddysgu am athroniaethau gwahanol sy'n bwysig i'n dealltwriaeth o'r byd a lle bodau dynol ynddo. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, byddan nhw'n meithrin y gallu i adnabod sut y caiff gwerthoedd a chredoau eu hadlewyrchu mewn gweithredoedd o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a'r berthynas rhyngddyn nhw a'u profiadau eu hunain.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'lle a gofod'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli eu bod wedi'u lleoli mewn lle a gofod, a bydd i hyn ystyr iddyn nhw. Ymhellach ar hyd eu taith, byddan nhw'n adnabod bod lleoedd a gofodau o'u cwmpas yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl, yn ogystal ag ystyried lleoedd o arwyddocâd arbennig am resymau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddechrau adnabod ac esbonio lleoedd sy'n destun dadlau (crefyddol ac anghrefyddol), gan werthfawrogi materion sensitif mewn perthynas â lle. Gallan nhw ddeall cymhlethdod dadleuon a dylanwadau megis hunaniaeth, awdurdod, gwerthoedd, moeseg ac ystyriaethau ynghylch ystyr a phwrpas mewn bywyd.

- Taith ddysgu enghreifftiol 3: gwerthoedd a moeseg
  Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd' ac 'Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol'. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

  Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

  Mae a wnelo'r daith hon â'r 'hyn sy'n werthfawr i bobl'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau adnabod beth sydd o werth iddyn nhw (er enghraifft, tegwch, ymddiriedaeth, cariad, bywyd a charedigrwydd) a byddan nhw'n gwrando ar farn pobl eraill. Gallan nhw gydnabod yr angen i barchu eraill a gallan nhw ddangos sut beth yw hyn yn eu bywydau pob dydd. Ymhellach ar hyd eu taith, bydd dysgwyr yn dod yn ymwybodol o wahanol ddehongliadau a ffyrdd o fynegi gwerthoedd cyffredin, gan werthfawrogi

amrywiaeth o ddylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Byddan nhw'n dysgu sut mae rhai gwerthoedd a hawliau wedi newid dros amser. Wrth i'w gwybodaeth a'u profiad dyfu, gall dysgwyr ddechrau trafod amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol o fewn achosion o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig ag adnabod a diogelu hawliau dynol. Yn ddiweddarach, byddan nhw'n meithrin y gallu i ffurfio, amddiffyn ac ailystyried eu safbwyntiau egwyddorol ar faterion o bwys crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, sancteiddrwydd bywyd, rhyddid i lefaru, lles anifeiliaid, a rhyfel).

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'chredoau, gweithredoedd a chanlyniadau'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg, a'r berthynas rhwng hyn a'u gweithredoedd a'u teimladau. Ymhellach ar hyd eu taith, mewn ffordd fwy eang a soffistigedig, gallan nhw esbonio sut y gall eu gweithredoedd arwain at ganlyniadau iddyn nhw eu hunain ac i eraill, ac i'r byd a phethau byw, gan ddefnyddio mewnwelediad o amrywiaeth o grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gallan nhw ragdybio a gwerthuso'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu hagweddau, eu hymddygiad a'u gweithredoedd, a rhai pobl eraill, gan gynnwys ffactorau sy'n ymwneud â chredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'gwneud penderfyniadau'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau adnabod enghreifftiau sylfaenol o gyfyng gyngor moesol a chynnig atebion. Ymhellach ar hyd eu taith, maen nhw'n adnabod rheolau a chodau ymddygiad (crefyddol ac anghrefyddol) sy'n berthnasol iddyn nhw ac eraill o'u cwmpas, a gallan nhw esbonio eu heffaith ar fywydau pobl. Yn ddiweddarach, gyda soffistigeiddrwydd cynyddol, gall dysgwyr ddechrau adnabod y cyfrifoldebau a'r heriau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, a'u trafod yn feirniadol, gan ddangos dealltwriaeth o ffigyrau, prosesau a sefydliadau perthnasol sy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau, mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Bydd dysgwyr yn adnabod cyfleoedd lle mae angen cymryd camau moesol priodol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

- Taith ddysgu enghreifftiol 4: hunaniaeth a pherthyn

  Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: 'Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd' ac 'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl'. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

  Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

  Mae a wnelo'r daith hon â'r 'hyn sy'n gwneud pobl yn bwy ydyn nhw'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o bwy ydyn nhw a'u bod yn debyg ac yn wahanol i eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, byddan nhw'n trafod yr hyn a all ffurfio hunaniaeth (er enghraifft, cydberthnasau, ffyrdd o fyw, credoau a lle) a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar bobl a'u cymunedau. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr adolygu a gwerthuso amrywiaeth o athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol, safiadau mewn bywyd ac arferion sy'n ymwneud â'r hyn y mae bod yn ddynol yn ei olygu, a gallan nhw ffurfio eu safbwyntiau eu hunain a'u hystyried mewn ffordd feirniadol.

  Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'chymunedau, cyfraniadau ac amrywiaeth'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn rhan o grwpiau a chymunedau amrywiol, ac yn dechrau deall beth yw perthyn. Maen nhw'n ymwybodol o amrywiaeth o fewn cymunedau perthnasol a'r ffaith bod eu profiadau o berthyn yn debyg ac yn wahanol i brofiadau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio ffyrdd o fynegi ymdeimlad o berthyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw drafod arwyddocâd perthyn ym mywydau pobl, gan gynnwys eu bywydau eu hunain. Yn ddiweddarach, ac yn fwyfwy soffistigedig, gall dysgwyr adnabod a gwerthuso'r berthynas rhwng perthyn, ymrwymiad a chyfraniadau at gymdeithas, diwylliant a lles.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘lle, amser a chydberthnasau’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn bodoli mewn lle ac amser, a bod hyn yn eu llywio hwy a'r cymunedau o'u cwmpas. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio'r rhyngweithio rhwng amrywiaeth o gymunedau a chymdeithasau yn lleol ac yn ehangach, a gallan nhw drafod cyfraniadau hunaniaeth a pherthyn o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw ddechrau adnabod parhad a newid mewn hunaniaeth a pherthyn, a'r ffyrdd y cânt eu profi yn bersonol ac ar y cyd. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr archwilio a gwerthuso cydberthnasau a rhyngddibyniaethau rhwng amrywiaeth o grwpiau, cymunedau a chymdeithasau (yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang) a'u heffaith ar fywydau pobl a'r byd naturiol. Gallan nhw ystyried yn feirniadol rolau hunaniaeth a pherthyn er mwyn deall materion cyfoes cyffredin, ac ymateb iddyn nhw o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

- Taith ddysgu enghreifftiol 5: awdurdod a dylanwad
  Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar dri datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd’, ‘Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl’ ac ‘Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon ag ‘awdurdodau a dylanwadau’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli bod rhai pobl bwysig yn dylanwadu arnyn nhw, a bod hyn yn effeithio ar y ffordd y maen nhw’n teimlo, yn meddwl ac yn ymddwyn. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw adnabod ac archwilio gwahanol ffynonellau awdurdod mewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol (er enghraifft, arweinwyr, cydberthnasau, testunau, codau ymddygiad a thraddodiadau). Yn y pen draw gallan nhw ddeall bod

ffynonellau awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallan nhw ddadansoddi a gwerthuso cydberthnasau cymhleth (gan gynnwys eu rhai eu hunain) sy'n bodoli ymhlith ac ar draws ffynonellau awdurdod. Yn ddiweddarach, gallan nhw ystyried yn feirniadol awdurdod profiad crefyddol ac ysbrydol ac awdurdod cydwybod, yn y gorffennol a'r presennol, a'u heffaith ar bobl, cymdeithas a diwylliant.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'phrofiadau a dehongliadau'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o ddylanwadau pwysig ym mywydau pobl eraill, a'r ffaith bod eu profiadau'n debyg ac yn wahanol i'w profiadau eu hunain. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio'r ffaith y caiff ffynonellau awdurdod eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol gan bobl a grwpiau amrywiol, o fewn cyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Yn y pen draw gallan nhw adnabod dylanwadau ar ddehongliadau a bod rhai ffynonellau awdurdod yn fwy dylanwadol nag eraill i wahanol bobl, grwpiau a chymdeithasau. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddefnyddio sawl ffynhonnell awdurdod i werthuso dehongliadau crefyddol ac anghrefyddol o faterion sy'n berthnasol i'r cyflwr dynol, a gallan nhw gyflwyno eu safbwyntiau gwybodus eu hunain. Gallan nhw ystyried yn feirniadol sut a pham y gall profiadau a chysyniadau o awdurdod newid dros amser.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'dewisiadau a gweithredoedd'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall y gall dewisiadau effeithio ar eu gweithredoedd. Gallan nhw ddangos ymwybyddiaeth o ddylanwadau ar eu dewisiadau. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw sylweddoli sut mae pobl a chymunedau'n defnyddio ffynonellau awdurdod crefyddol ac anghrefyddol i'w harwain yn eu bywydau a llywio penderfyniadau pwysig. Yn ddiweddarach, wrth i ddealltwriaeth dysgwyr ddatblygu, gallan nhw ddefnyddio eu gwybodaeth am amrywiaeth o ffynonellau awdurdod, a'u dealltwriaeth ohonyn nhw, i ymgysylltu'n feirniadol â materion neu ddadleuon egwyddorol cyfoes, a dylanwadu ar

weithredoedd a chanlyniadau posibl (er enghraifft, her, consensws a chymodi).

- Taith ddysgu enghreifftiol 6: cydberthnasau a chyfrifoldeb
  Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: 'Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol' ac 'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl'. Gellir archwilio cysylltiadau gyda datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a chyda Meysydd eraill drwy'r is-lens hon hefyd.

  Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

  Mae a wnelo'r daith hon â'r 'ffordd y mae pobl yn byw gyda'i gilydd'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau deall eu bod yn byw mewn nifer o gydberthnasau. Maen nhw'n ymwybodol o'r hyn sy'n eu helpu i fyw gydag eraill. Gallan nhw gynnig barn ar ffyrdd o ddatrys anghytundeb. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw adnabod a thrafod ffyrdd y caiff pwysigrwydd cydberthnasau (personol, cymdeithasol, amgylcheddol a throsgynnol) ei fynegi ym mywydau pobl, gan gyfeirio at gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr sylweddoli bod cydberthnasau yn ddeinamig ac yn gymhleth. Gallan nhw ystyried yn feirniadol ddylanwadau a all gyfrannu at gytgord ac anghytgord yn fyd-eang, yn lleol ac yn bersonol (gan gynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol). Gallan nhw adolygu a gwerthuso heriau sy'n gysylltiedig â chydberthnasau, gan gyfeirio at amrywiaeth o fewnwelediadau a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol.

  Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'chyfrifoldebau a chydgysylltiad'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o gysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, y byd naturiol a phethau byw. Gallan nhw ddangos cyfrifoldeb at eraill drwy weithredoedd syml. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw adnabod pam a sut mae pobl yn dangos cyfrifoldeb at bobl ac at leoedd y tu hwnt i'w cydberthnasau personol. Gallan nhw drafod dimensiynau materol ac anfaterol

cydberthnasau (gan gynnwys dimensiynau ysbrydol, crefyddol a moesol), ac, yn y pen draw, gallan nhw adnabod cysylltiadau â thwf bodau dynol a sut y gall pobl fyw gyda'i gilydd yn gyfrifol yn y byd. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddechrau datblygu gwerthfawrogiad beirniadol o faterion arwyddocaol sy'n effeithio ar gydberthnasau ar lefel fyd-eang a gallan nhw ddychmygu sawl dyfodol posibl. Gallan nhw ymgysylltu'n feirniadol ag amrywiaeth o athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol gan archwilio cydgysylltiad mewn bywyd, yn ogystal â natur a dealltwriaeth bodau dynol oddi mewn iddo.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â ‘lles, hunaniaeth a chynhwysiant’. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol o'u profiadau a'u teimladau eu hunain pan fyddan nhw’n cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill. Gallan nhw gydnabod bod gan bobl eraill brofiadau a theimladau hefyd, a'u bod yn debyg ac yn wahanol i'w profiadau a'u teimladau eu hunain. Byddan nhw’n dangos chwilfrydedd am fywydau pobl eraill. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio sut y gall gweithredu olygu ymroddiad ac aberth sylweddol (yn y gorffennol a'r presennol) a chael effaith fawr ar fywydau a lles pobl eraill ac ar y byd ehangach. Yn y pen draw gallan nhw adnabod cysylltiadau rhwng gweithredoedd a hunaniaeth, gan gynnwys dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw adnabod annhegwch ac anghydraddoldeb yn eu bywydau personol eu hunain ac mewn cymdeithas ehangach, ac awgrymu heriau priodol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ystyried yn feirniadol sut bethau yw cydberthnasau iach a beth yw eu cyfraniad at les, gan gyfeirio at amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw ddechrau deall a gwerthuso cydberthnasau rhwng hunaniaeth bersonol a hunaniaeth grŵp berthnasol.

- Taith ddysgu enghreifftiol 7: taith bywyd
  Mae'r daith ddysgu hon yn seiliedig ar ddau ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig yn bennaf: ‘Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd’ ac ‘Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl’. Gellir archwilio cysylltiadau gyda

datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig, ynghyd â Meysydd eraill, drwy'r is-lens hon hefyd.

Bydd y disgrifiadau dysgu'n helpu i roi arweiniad manylach ar gynnydd.

Mae a wnelo'r daith hon ag 'ystyr, pwrpas a dylanwad'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli bod gan bobl straeon personol eu bywydau. Bydd dysgwyr yn dechrau adrodd hanes eu bywydau eu hunain. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio amrywiaeth o lwybrau bywyd y mae pobl wedi'u profi, gan gyfeirio at gyd-destunau a dylanwadau crefyddol ac anghrefyddol. Yn y pen draw gallan nhw adnabod cysylltiadau â chreu ystyr a phwrpas. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddadansoddi'r cysyniad o alwad yn y gorffennol a'r presennol, a'i ystyried yn feirniadol, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Gallan nhw archwilio heriau y bydd pobl yn eu hwynebu ar hyd llwybr bywyd, a gwerthuso ymatebion crefyddol ac anghrefyddol.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'chamau a digwyddiadau bywyd'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau dod yn ymwybodol eu bod yn tyfu ac yn newid dros amser. Byddan nhw'n profi ac yn cymharu'r ffyrdd y caiff eu twf eu hunain a thwf pobl eraill eu cydnabod a'u dathlu. Gallan nhw ddangos y cysylltiad rhwng eu bywydau ac adegau a thymhorau arbennig. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio digwyddiadau a newidiadau arwyddocaol mewn bywyd, a gallan nhw drafod eu rolau ym mywydau pobl drwy gyfeirio at fewnwelediadau crefyddol ac anghrefyddol. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr ddadansoddi gweithredoedd defodol pobl wrth nodi digwyddiadau arwyddocaol ac amser, a'u trafod yn feirniadol. Gallan nhw ddechrau gwerthuso athroniaethau perthnasol ynghylch amser, o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a dangos sut y gall y rhain effeithio ar gredoau, arferion a gweithredoedd.

Mae a wnelo'r daith hon hefyd â 'theithiau corfforol ac ysbrydol'. Ar gamau cynnar eu taith ddysgu, bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli eu bod yn mynd ar lawer o deithiau gwahanol am resymau amrywiol. Maen nhw'n dangos

diddordeb yn nheithiau pobl eraill a gallan nhw weld ym mha ffyrdd y mae eu teithiau'n debyg ac yn wahanol i'w profiadau eu hunain. Maen nhw’n ymwybodol bod gan deithiau nodweddion corfforol yn ogystal â nodweddion anfaterol. Ymhellach ar hyd eu taith ddysgu, gallan nhw archwilio profiadau pobl o deithiau pwysig o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, a gallan nhw nodi rhesymau dros y teithiau hyn. Yn y pen draw gallan nhw ddeall bod teithiau'n gysylltiedig â lle ac amser. Gallan nhw ddychmygu sut beth y gallai taith bwysig fod yn eu bywydau eu hunain. Yn ddiweddarach, gall dysgwyr adnabod a gwerthuso cydberthnasau rhwng teithiau corfforol ac ysbrydol a'u heffeithiau ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas ehangach (er enghraifft mewn perthynas â hunaniaeth, ffurfiant bodau dynol, amrywiaeth, diwylliant). Gallan nhw ystyried y cydgysylltiad rhwng teithiau, tirweddau a phobl mewn lleoedd ac ar adegau gwahanol, gan gyfeirio at gyd-destunau crefyddol ac anghrefyddol.

## *Cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

Pa ddull bynnag a ddefnyddir i gynllunio'r cwricwlwm, bydd angen i ysgolion a lleoliadau sicrhau darpariaeth gyfoethog ar gyfer dysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy amrywiaeth eang o brofiadau. Mae profiadau dysgu yn agwedd ganolog ar athroniaeth **Fframwaith Cwricwlwm i Gymru**. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau y cynigir amrywiaeth o brofiadau i'r dysgwyr sy'n briodol yn ddatblygiadol, ac sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gall y profiadau hyn gynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:

- ymgysylltu â chymunedau lleol crefyddol ac anghrefyddol, mewn ffyrdd a fydd yn ystyrlon ac yn werthfawr i'r dysgwyr
- chwarae rôl a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathliadau neu ddigwyddiadau ail-greu, neu arsylwi arnyn nhw
- ystyried yr hyn sy'n dylanwadu ar bobl wrth iddyn nhw ymateb i gyfyng gyngor moesegol, datrys problemau gwirioneddol a phresennol, ac ystyried digwyddiadau yn y gorffennol
- profi ac ystyried dirgelwch a rhyfeddod y byd naturiol, lleoliadau hanesyddol a safleoedd crefyddol a diwylliannol
- arsylwi a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n helpu dysgwyr i ddeall profiadau dynol

- archwilio a thrin a thrafod arteffactau a gwrthrychau crefyddol, gan gynnwys testunau cysegredig a thestunau eraill
- ymweld â mannau addoli lleol ynghyd â lleoedd, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol arwyddocaol
- cwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddyn nhw er mwyn helpu dysgwyr i archwilio profiadau bob-dydd
- gofyn cwestiynau mawr sy'n ymwneud â phwerau uwch neu realiti eithaf, y byd, ystyr a phwrpas bywyd a'u profiadau eu hunain
- trin a thrafod gwahanol fathau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er enghraifft arweinwyr crefyddol, pobl â ffydd a chred, athronwyr, mannau addoli, arteffactau, testunau cysegredig a gweithiau athronyddol
- dysgu sut i ymateb i gredoau ac argyhoeddiadau pobl eraill gan ystyried a dadansoddi eu safbwyntiau a'u gwerthoedd eu hunain ar yr un pryd

Hefyd, er mwyn cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae angen i ysgolion a lleoliadau archwilio eu lle yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach fel cam pwysig yn y broses o gynllunio eu cwricwlwm. I ategu hyn, gall ysgolion a lleoliadau ymchwilio i'r grwpiau ffydd a chred a gynrychiolir yn lleol a ledled Cymru, yn ogystal â lleoedd a mannau cysegredig, yn y gorffennol a'r presennol.

## *Cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill*

Wrth gynllunio'r cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau, dylid archwilio cysylltiadau a rhyngddibyniaethau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Meysydd eraill fel rhan o **gwricwlwm cyfannol**. Dylid defnyddio'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau hyn wrth gynllunio'r cwricwlwm, a dylai ymarferwyr gydweithio'n greadigol er mwyn cefnogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

## *Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau eu hystyried*

Gall ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cwestiynau canlynol wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

- Ydych chi wedi ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried eich maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn helpu i wireddu'r pedwar diben?

- Ydych chi wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi defnyddio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried amrywiaeth o is-lensys y gellir eu defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried cynnydd dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried y 'teithiau dysgu' a ddarparwyd er mwyn eich helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hun er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r meysydd dysgu a phrofiad eraill?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol?

## *Sicrhau cynwysoldeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

Dylai pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a gwireddu ei botensial llawn mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dylai ysgolion a lleoliadau sy'n rhoi addysg i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rhai ag anawsterau dwys a lluosog, ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion pob dysgwr wrth gynllunio a chynnig cyfleoedd dysgu effeithiol mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Gallai'r ystyriaethau hyn gynnwys, er enghraifft:

- dulliau gweithredol ac amlsynnwyr o gyflwyno pethau newydd i'w dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ystyried gwahanol ddulliau dysgu ac anghenion emosiynol pob dysgwr
- cyfleoedd cynhwysol i ddysgwyr brofi rhyfeddod mewn amrywiaeth o amgylcheddau
- defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau, megis arteffactau crefyddol ac anghrefyddol a chyd-destunau perthnasol

- pob dysgwr yn cymryd rhan yn llawn, gan gynnwys y rhai sy'n cyfathrebu drwy ddulliau heblaw siarad
- gweithgareddau sy'n cynnwys pob dysgwr o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, er enghraifft, wrth ymweld â mannau addoli lleol a lleoedd arbennig ac arwyddocaol eraill

Wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dylai ymarferwyr a gofalwyr fod yn ymwybodol o ddull gweithredu'r ysgol neu'r lleoliad mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau.

I gael rhagor o wybodaeth am ADY, gweler canllawiau **Ar Drywydd Dysgu** a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

## *Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir*

Dylai darpariaeth addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir gael ei hystyried fel rhan o ddull cyfannol cyffredinol mewn perthynas â dysgu a datblygu. Mae adran 'Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' y canllawiau hyn yn cynnig rhagor o wybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, er mwyn helpu ymarferwyr yn y lleoliadau hyn gyda'r dull cyfannol hwn.

Mae chwilfrydedd dysgwyr ifanc yn ddi-ben-draw; maen nhw'n mwynhau archwilio ac ymchwilio ar eu pen eu hunain ac ar y cyd ag eraill, ac maen nhw'n naturiol yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ac integredig sy'n ennyn eu diddordeb o fewn y cyfnod dysgu hwn, gall dysgwyr ddechrau dysgu mwy amdanyn nhw eu hunain, am bobl eraill ac am y byd ehangach.

Dylai addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n ymatebol, yn ddeinamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf, fod wrth wraidd y broses o ddatblygu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliad. Drwy chwarae, gall dysgwyr ddatblygu eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Gall hyn helpu i lywio'r ffordd y maen nhw'n gweld y byd. Mae treulio amser yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol

dysgwyr, yn ogystal â'u lles. Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn eu helpu i ddod yn ymwybodol o'r angen i ddangos gofal a pharch tuag at bethau byw.

Yn ystod y cyfnod dysgu hwn, mae dysgwyr yn dechrau deall y cysyniad o 'wahaniaeth'. Dylai ymarferwyr eu hannog i rannu eu gwybodaeth am eu credoau, eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain, yn ogystal â rhai pobl eraill, ynghyd â'u profiadau ohonyn nhw (er enghraifft, drwy ganeuon, straeon a chwarae rôl). Gall hyn helpu dysgwyr ifanc i ddeall mwy amdanyn nhw eu hunain, ac am brofiadau a safbwyntiau a all fod yn wahanol i'w rhai eu hunain.

Gall amgylchedd meithrin, cefnogol helpu dysgwyr i ddechrau meithrin cydberthnasau llawn parch ac ymdeimlad o gyfrifoldeb. Mewn amgylchedd o'r fath gall dysgwyr ddysgu am yr hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng ei gilydd. Gallan nhw ddechrau archwilio iaith hawliau a dechrau deall eu hawl i gredu pethau gwahanol a dilyn credoau gwahanol. Drwy hyn, gall dysgwyr ddechrau sylweddoli a deall sut y gall eu gweithredoedd effeithio ar eraill, a dysgu sut i fyfyrio ar eu safbwyntiau eu hunain a'u hailystyried, fel y bo'n briodol, a hynny o oedran cynnar.

### *Addysg heblaw yn yr ysgol*

Mae gan bob dysgwr hawl i gael addysg. Wrth ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion eu dysgwyr, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ystyried elfennau gorfodol y cwricwlwm, sy'n cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a sicrhau darpariaeth ar eu cyfer i'r graddau a fyddai'n rhesymol bosibl ac yn briodol i'r dysgwr unigol.

Dylai profiadau dysgwyr eu galluogi i archwilio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes y Dyniaethau, gan ddefnyddio is-lensys amrywiol o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn. Nid yw'n ofynnol i leoliadau o'r fath ddilyn y maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, rhaid i'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn y lleoliadau hyn fodloni'r gofyniad plwraliaethol o hyd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gofynion deddfwriaethol i unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn yr adran ar ddeddfwriaeth yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

### *Addysg perthnasoedd a rhywioldeb yn y Maes hwn*

Mae'r Maes hwn yn cynnig cyfle pwysig i ddysgwyr ddeall sut mae dealltwriaeth gymdeithasol o gydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb wedi newid dros amser a'r ffordd y mae'n parhau i esblygu. Gall astudio addysg cydberthynas a rhywioldeb drwy Faes y Dyniaethau ysbrydoli dysgwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth o faterion pwysig a datblygu'r sgiliau i ddehongli syniadau a chyflwyniadau am addysg cydberthynas a rhywioldeb drwy gydol hanes ac mewn diwylliannau a chyd-destunau gwahanol ledled y byd. Er enghraifft, gellid ystyried sut mae normau a chanfyddiadau o bobl *LHDTC+* wedi newid dros amser. Mae hefyd yn cefnogi dysgwyr i ymgysylltu â gwybodaeth yn feirniadol, deall sail gwybodaeth a gaiff ei chyflwyno fel ffaith, a gwneud penderfyniadau beirniadol am sut i ddefnyddio'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael iddyn nhw ac ymateb iddyn nhw.

Mae'r Maes hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ystyried hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau a safbwyntiau crefyddol mewn perthynas â chydberthnasau a rhywioldeb. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd pwysig i ddysgwyr drafod, ystyried a datblygu dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol ar faterion addysg cydberthynas a rhywioldeb, a gaiff ei llywio gan fydolwg crefyddol ac anghrefyddol, heriau moesegol a materion yn ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn cefnogi dysgwyr i ddeall y tensiynau rhwng gwahanol safbwyntiau a mynd i'r afael â nhw. Gall hyn gefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â materion addysg cydberthynas a rhywioldeb ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang yn y gorffennol a'r presennol, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion gwybodus a moesegol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Crynodeb o’r ddeddfwriaeth - Hwb (gov.wales)

# Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o’r ddeddfwriaeth

CYNNWYS


- Crynodeb o’r ddeddfwriaeth
- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – cyflwyniad
- Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir
- Lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Unedau cyfeirio disgyblion
- Addysg heblaw yn yr ysgol
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb
- Crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
- Gofynion ehangach


## Crynodeb o’r ddeddfwriaeth

Nod yr adran hon o ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw helpu ysgolion a lleoliadau, yn ogystal ag eraill ym maes addysg sydd â diddordeb, i feithrin dealltwriaeth well o'r gyfraith mewn perthynas â’r Cwricwlwm i Gymru a'r hyn sy'n ofynnol ganddyn nhw.

Yn ogystal â nodi sail gyfreithiol y canllawiau, mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddyletswyddau cyfreithiol a chanllawiau statudol y mae'n rhaid i ysgolion neu leoliadau eu hystyried. Mae hefyd yn nodi diffiniadau i egluro ystyr y termau hyn.

Wrth gyflwyno'r wybodaeth hon, mae'r adran hon o'r canllawiau hefyd yn ymwneud â nifer o agweddau penodol ar y cwricwlwm a'r canllawiau asesu yn y fframwaith ac yn cysylltu â nhw.

# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – cyflwyniad

**Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** (y Ddeddf) y Cwricwlwm i Gymru o dan y gyfraith, gan ddisodli'r cwricwlwm sylfaenol (sy'n cynnwys, er enghraifft, y cwricwla cenedlaethol a lleol a nodir yn **Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002**). Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ynghylch cynnydd ac asesu mewn perthynas â'r cwricwlwm i ddysgwyr rhwng 3 a 16 oed. Mae hefyd yn cael effaith gyfyngedig ar y cwricwlwm i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Serch hynny, nid yw'r Ddeddf yn effeithio ar lawer o'r hyn sy'n berthnasol iddyn nhw ar hyn o bryd, sy'n aros heb ei newid.

Mae'r Ddeddf yn gosod *dyletswyddau* ar y canlynol:

- cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion
- pwyllgorau rheoli ac athrawon sy'n gyfrifol am *unedau cyfeirio disgyblion*
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- darparwyr meithrinfeydd a ariennir nas cynhelir (meithrinfeydd preifat a ariennir gan yr awdurdod lleol i gynnig lleoedd addysg)
- awdurdodau lleol sy'n darparu dysgu ac addysgu i ddysgwyr heblaw mewn ysgol, lleoliad neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o **Ddeddf Addysg 1996**
- Gweinidogion Cymru

Mae'r gofynion gorfodol, neu'r dyletswyddau, a nodir yn y Ddeddf, y Codau a'r rheoliadau eraill y cyfeirir atyn nhw isod hefyd wedi'u nodi yn adrannau perthnasol y canllawiau fframwaith hyn, a thynnir sylw atyn nhw er mwyn sicrhau eglurder.

Os oes gofyniad ar ysgolion neu leoliadau i *ystyried* y canllawiau, esbonnir hyn hefyd yn yr adran berthnasol o'r canllawiau.

## Cysyniadau ac elfennau gorfodol

Mae'r Ddeddf yn nodi **pedwar diben** y cwricwlwm o dan y gyfraith. Mae hefyd yn nodi'r elfennau gorfodol canlynol sydd, ac eithrio Saesneg, yn rhychwantu continwwm dysgu 3 i 16 oed:

- **sgiliau trawsgwricwlaidd** llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- enwau'r meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd)
- addysg cydberthynas a rhywioldeb
- crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Cymraeg
- Saesneg – o 7 oed. Gall penaethiaid a darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir arfer eu disgresiwn wrth benderfynu a fyddan nhw'n cyflwyno Saesneg i ddysgwyr rhwng 3 a 7 oed, ac i ba raddau. Diben hyn yw hwyluso'r broses o drochi dysgwyr y blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg. Felly, disgwylir y bydd ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn parhau i gynnwys Saesneg yn eu cwricwla

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi tri Chod y mae'n rhaid iddyn nhw fod yn sail i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ym mhob ysgol a lleoliad sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r Codau yn barhaus a'u diweddaru yn ôl yr angen. Y Codau yw:

- **Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**
- y **Cod cynnydd**
- y **Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau asesu. Bydd y *Rheoliadau* yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid a darparwyr eraill wneud trefniadau asesu fel rhan o'r broses o gynllunio a datblygu eu cwricwlwm a'u rhoi ar waith, ac i adolygu a diwygio eu trefniadau asesu fel rhan o'u prosesau hunanfyfyrio a gwella'r cwricwlwm. Yn gysylltiedig â hyn, o dan adran 57 o'r Ddeddf, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo penaethiaid a darparwyr addysg eraill i gymryd camau penodol i hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd.

# Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gofynion ar gyfer *ysgolion* a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir. Dylid hefyd ei darllen ar y cyd â'r adrannau sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb; crefydd, gwerthoedd a moeseg; *gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith*, a gofynion ehangach.

Mae adran 79 o'r Ddeddf yn diffinio ystyr ysgolion o'r fath, sef:

- ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru
- ysgol arbennig gymunedol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru, ac eithrio ysgol arbennig gymunedol a sefydlwyd mewn ysbyty
- ysgol feithrin a gynhelir nad yw'n ysgol arbennig

## Cynllunio ac asesu

Rhaid i'r pennaeth sicrhau y caiff cwricwlwm ei gynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu i bob dysgwr wedi'i gofrestru rhwng 3 a 16 oed. Rhaid i'r cwricwlwm wneud y canlynol:

- galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y **pedwar diben**
- bod yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- bod yn **eang ac yn gytbwys**

- darparu ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu pob un o'r Meysydd, gan gynnwys yr elfennau gorfodol. Dim ond os yw'n cynnwys pob un o'r **datganiadau o'r hyn sy'n bwysig y bydd cwricwlwm yn gwneud hyn**
- gwneud darpariaeth i ddatblygu'r **sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol**
- darparu ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cyd-fynd â'r **Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb** ac sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr
- darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg i ddysgwyr ym Mlwyddyn 1 ac uwch sy'n cyd-fynd â gofynion cynllunio'r cwricwlwm
- darparu dewis i'r dysgwyr hynny sy'n symud o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 o ddysgu ym mhob un o'r Meysydd yn unol â'r gofynion yn y canllawiau fframwaith hyn
- darparu ar gyfer cynnydd priodol sy'n gyson â'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y Cod Cynnydd ac sy'n ystyried y canllawiau fframwaith hyn. Rhaid i'r trefniadau asesu hyn fod yn seiliedig ar yr **egwyddorion cynnydd hynny**
- gwneud trefniadau asesu parhaus i gefnogi cynnydd dysgwyr drwy gydol y flwyddyn ysgol
- gwneud trefniadau ar gyfer asesu gallu a dawn dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol, ar adeg eu derbyn i ysgol neu leoliad

# Mabwysiadu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a'u rhoi ar waith

Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu fabwysiadu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu ar y cyd, a chyhoeddi crynodeb ohonyn nhw. Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu fabwysiadu'r trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr ar adeg eu derbyn i'r ysgol neu leoliad ar y cyd. Argymhellir y dylai cytundeb rhwng y pennaeth a'r corff llywodraethu fod yn rhan o gyfarfod o'r corff llywodraethu ac, felly, gael ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

O ran cynnwys crynodebau o'r cwricwlwm sy’n cael eu cyhoeddi, mae'n bosibl y caiff canllawiau manylach eu cyhoeddi maes o law. Am y tro, argymhellwn y dylai crynodebau o'r fath gynnwys:

• gwybodaeth am y ffordd y mae ymarferwyr, dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r cwricwlwm
• sut mae'r cwricwlwm yn bodloni'r elfennau gofynnol a nodir yn y fframwaith cenedlaethol hwn, gan ddechrau gyda'r pedwar diben
• gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn ymdrin â chynnydd dysgwyr a'i threfniadau ar gyfer asesu
• sut y bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys y broses ar gyfer casglu adborth a diwygio'r cwricwlwm yn barhaus

Rhaid i ysgolion sicrhau bod y cwricwlwm sy’n cael ei fabwysiadu yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n:

- galluogi pob dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y **pedwar diben**
- sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig cyfleoedd priodol i bob dysgwr wneud cynnydd ac sy'n seiliedig ar yr **egwyddorion cynnydd** ym mhob Maes
- addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob dysgwr
- ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob dysgwr (os oes rhai)
- sicrhau dysgu ac addysgu eang a chytbwys i bob dysgwr

I bob dysgwr yn y flwyddyn dderbyn i Flwyddyn 9 (yn gynwysedig), rhaid i'r cwricwlwm gael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau dysgu ac addysgu sydd:

- yn cwmpasu'r chwe Maes a'r holl elfennau gorfodol
- o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb, yn addas ar gyfer cam datblygu'r dysgwr
- o ran addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg, ac eithrio mewn perthynas â dysgwyr yn y flwyddyn dderbyn (y dysgwyr hynny dan oedran ysgol gorfodol, y rhai rhwng 3 a 5 oed fel arfer), yn cyd-fynd â gofynion cynllunio'r cwricwlwm. Dylid parhau i ddarparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg blwraliaethol i ddysgwyr rhwng 3 a 5 oed
- yn datblygu'r **sgiliau trawsgwricwlaidd**

O ran dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11, rhaid i'r cwricwlwm gael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau dysgu ac addysgu sydd:

- yn sicrhau dysgu ac addysgu ym mhob un o'r Meysydd. Nid oes angen cynnwys popeth yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer pob un o'r Meysydd, ond mae angen i bob un o'r Meysydd fod yn rhan o'r cwricwlwm. Dyma'r unig wahaniaeth ar gyfer y garfan hon
- o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb, yn addas ar gyfer cam datblygu'r dysgwr
- o ran addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg, yn cyd-fynd â gofynion cynllunio'r cwricwlwm
- datblygu'r **sgiliau trawsgwricwlaidd**

Rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth sicrhau y caiff y cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu ei roi ar waith yn unol â'r gofynion uchod.

# Adolygu a diwygio

Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu adolygu'r cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu yn barhaus, a'i ddiwygio os na fydd yn bodloni'r gofynion cynllunio (a nodir uchod) mwyach. Gallan nhw ei ddiwygio ar unrhyw adeg ond, os byddan nhw'n gwneud hynny, rhaid iddyn nhw gyhoeddi crynodeb diwygiedig.

Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu hefyd adolygu'n barhaus y trefniadau asesu ar gyfer y cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr ar adeg eu derbyn. Rhaid iddyn nhw eu hadolygu fel rhan o'u hadolygiad o'r cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu a'u diwygio os caiff y cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu ei ddiwygio neu os na fyddan nhw'n bodloni'r gofynion asesu mwyach.

## Dewis dysgwyr a'i ddatgymhwyso

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i benaethiaid a chyrff llywodraethu ddatgymhwyso dewis dysgwyr mewn rhai amgylchiadau.

Mae'n ofynnol i benaethiaid roi'r cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu ar waith mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr i arfer eu dewisiadau ar gyfer Blynyddoedd 10 a 11. Fodd bynnag, gallan nhw benderfynu peidio â chymhwyso'r dysgu a'r addysgu a ddewiswyd gan ddysgwr. Mae'r Ddeddf yn pennu'r seiliau lle y gall hyn fod yn gymwys yn achos penderfyniadau a wnaed cyn i ddysgwr ddechrau ym Mlwyddyn 10, a phenderfyniadau a wnaed ar ôl i ddysgwr ddechrau ym Mlwyddyn 10. Bydd hyn yn disodli'r cwricwlwm lleol yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 (a gyflwynwyd gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009). Felly, ni fydd y gofyniad lleol yn y cwricwlwm lleol i awdurdodau lleol gynnig o leiaf 25 o gyrsiau ar lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, y dylai o leiaf dri ohonyn nhw fod yn gyrsiau galwedigaethol, yn gymwys i'r garfan hon mwyach.

O ran dysgwyr nad ydyn nhw wedi dechrau ym Mlwyddyn 10 eto, gellir penderfynu datgymhwyso dewis dysgwr yn yr amgylchiadau canlynol:

- nid yw'r dysgu na'r addysgu yn addas i'r dysgwr oherwydd lefel ei gyrhaeddiad addysgol
- nid yw'n rhesymol ymarferol sicrhau dysgu ac addysgu ar gyfer y dysgwr oherwydd ei ddewisiadau dysgu eraill
- byddai'r amser y byddai'r dysgwr yn ei dreulio'n teithio i'r man lle y byddai'r addysgu'n debygol o ddigwydd yn cael effaith andwyol ar addysg y dysgwr
- byddai sicrhau'r dysgu a'r addysgu ar gyfer y dysgwr yn arwain at wariant anghymesur
- byddai sicrhau'r dysgu a'r addysgu ar gyfer y dysgwr yn peri risg annerbyniol i iechyd a diogelwch y dysgwr neu berson arall

O ran dysgwyr sydd wedi dechrau ym Mlwyddyn 10, mae'r seiliau a nodir isod yn fwy cyfyngedig. Y rheswm dros hyn yw y bydd yr effaith ar y dysgwr yn fwy pan fydd eisoes wedi dechrau ar y llwybr dysgu ac addysgu a ddewiswyd ganddo. Mewn amgylchiadau o'r fath, dim ond yn yr achosion canlynol y gellir penderfynu datgymhwyso dewis dysgwr:

- byddai parhau i sicrhau'r dysgu a'r addysgu ar gyfer y dysgwr yn arwain at wariant anghymesur
- byddai parhau i sicrhau'r dysgu a'r addysgu ar gyfer y dysgwr yn peri risg annerbyniol i iechyd a diogelwch y dysgwr neu berson arall

Os penderfynir datgymhwyso dewis dysgwr, rhaid i'r pennaeth sicrhau dysgu ac addysgu o hyd ar gyfer y dysgwr ym mhob un o'r meysydd yn ogystal â'r elfennau gorfodol. Fodd bynnag, ni fydd angen cynnig dewis arall i'r dysgwr o ran ei ddysgu a'i addysgu.

Os penderfynir datgymhwyso dewis y dysgwr, yna rhaid i'r pennaeth roi gwybodaeth benodol i'r dysgwr a'i riant neu ofalwr (gweler **adran 32** o'r Ddeddf). **Mae adran 33** yn galluogi dysgwr, rhiant neu ofalwr i'w gwneud yn ofynnol i'r pennaeth adolygu'r penderfyniad hwnnw. Os bydd yn ofynnol i'r pennaeth wneud hynny, rhaid iddo naill ai gadarnhau, amrywio neu dynnu'r penderfyniad yn ôl, a hysbysu'r dysgwr a'i riant neu ofalwr am ganlyniad yr adolygiad hwnnw. Os bydd dysgwr, rhiant neu ofalwr yn anfodlon ar ganlyniad yr adolygiad, gall apelio i gorff llywodraethu'r ysgol. Os cyflwynir apêl, rhaid i'r corff llywodraethu naill ai gadarnhau, amrywio neu dynnu penderfyniad y pennaeth yn ôl, a hysbysu'r dysgwr a'i riant neu ofalwr am ganlyniad yr apêl.

Nid oes unrhyw ddyletswydd i roi gwybodaeth i'r dysgwr am ganlyniad adolygiad nac apêl os bydd y pennaeth o'r farn nad oes ganddo'r gallu i ddeall y wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi, neu (yn achos canlyniad adolygiad) yr hyn y byddai'n ei olygu i arfer yr hawl i apelio.

# Eithriadau

Mae'r rhain yn faterion y dylai ysgolion eu hystyried wrth roi eu cwricwlwm ar waith o ddydd i ddydd.

## *O ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)*

Mae adran 41 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso eithriadau at ofynion y cwricwlwm i ddysgwyr ag ADY. Gall awdurdodau lleol ddatgymhwyso neu addasu'r gofynion o ran rhoi'r cwricwlwm ar waith ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â chynlluniau datblygu unigol o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 neu sydd ag anghenion addysgol arbenig o dan y Ddeddf Plant a Theuluoedd yn achos plant sy'n byw yn Lloegr. Dylid amlinellu'r broses o ddatgymhwyso

neu addasu'r cwricwlwm yng nghynllun datblygu unigol y dysgwr, neu yn achos dysgwyr sy'n byw yn Lloegr ac yn cael eu haddysgu yng Nghymru, yn eu cynlluniau addysg, iechyd a gofal.

### *Eithriadau dros dro*

Ceir pŵer ar wahân ac ychwanegol yn adran 42 o'r Ddeddf i benaethiaid wneud eithriadau dros dro i'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith ar gyfer dysgwyr unigol. Bydd y rheoliadau yn galluogi penaethiaid i roi eithriadau dros dro ar waith mewn perthynas â gofynion y cwricwlwm, a nodi'r amgylchiadau lle y gellid eu cymhwyso (ni fydd yr amgylchiadau hynny'n cynnwys anghenion dysgu ychwanegol y dysgwr). Er enghraifft, pe bai dysgwr wedi bod yn sâl am gryn amser, ni fyddai'n ymarferol nac yn deg disgwyl iddo ymdopi â dysgu ac addysgu'r cwricwlwm llawn yn union ar ôl iddo ddychwelyd i'r ysgol. Bydd penaethiaid yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i ddatgymhwyso'r cwricwlwm cyfan neu ran ohono i ddysgwyr mewn amgylchiadau eithriadol am gyfnod penodol o amser.

### *Gwaith datblygu ac arbrofion*

Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ysgolion (o dan adran 38 o'r Ddeddf) i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwaith datblygu neu arbrofion. Gall cyfarwyddyd o'r fath addasu neu ddatgymhwyso dyletswyddau i roi'r cwricwlwm ar waith am gyfnod penodol a bennir yn y cyfarwyddyd, fel y gellir gwneud y gwaith datblygu neu'r arbrawf. Felly, gellid defnyddio cyfarwyddyd i alluogi ysgolion i gymryd rhan mewn rhaglen beilot ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm. Ceir amodau penodol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o'r fath, sy'n sicrhau bod y dysgwyr y mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt yn parhau i gael budd o gwricwlwm addas.

## Darparu trefniadau amgen

Er gwybodaeth, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad a'r rhai a gedwir mewn cartrefi diogel. Os bydd

Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud rheoliadau o'r fath, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion.

## Dyletswyddau ychwanegol

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau pellach i'r rhai a nodir yn y cyflwyniad uchod wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, megis cynllunio, mabwysiadu neu roi cwricwlwm ar waith. Rhaid iddyn nhw wneud y canlynol:

- *ystyried* iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr y mae arfer y swyddogaeth yn debygol o effeithio arnyn nhw (adran 63). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ystyried effaith unrhyw swyddogaeth ar iechyd meddwl a lles emosiynol y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff y dysgu ei gyflwyno, ei strwythuro a'i drefnu, ynghyd â'i le yng nghyd-destun ehangach yr ysgol, a fydd yn effeithio ar les y dysgwyr
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** i'r rhai sy'n darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu (adran 64)
- cydweithio ag *ysgolion, lleoliadau, unedau cyfeirio disgyblion*, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach os bydd gwneud hynny yn eu helpu i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf (adran 65)
- ystyried cais i gydweithio os daw cais o'r fath i law (erys y pwerau cydweithio a bennir ym Mesur Addysg (Cymru) 2011 mewn grym) (adran 65)
- *ystyried* unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf (adran 71)

## Addysg ôl-orfodol

Rhaid i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol sicrhau bod cwricwla ysgolion a gynhelir ar gyfer addysg ôl-orfodol yn:

- eang ac yn gytbwys
- hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol dysgwyr a chymdeithas
- paratoi dysgwyr ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau yn ddiweddarach yn eu bywyd

Rhaid i bennaeth sicrhau bod darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb ar gael i'r dysgwyr hynny mewn addysg ôl-orfodol sy'n gofyn amdani. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i gorff llywodraethu sicrhau y caiff y ddarpariaeth hon ei darparu ar gais.

Yn yr un modd, rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu sicrhau bod darpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg ar gael i'r dysgwyr hynny mewn addysg ôl-orfodol sy'n gofyn amdani. Rhaid i ddarpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg o'r fath adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau

Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd y prif grefyddau eraill (heblaw am Gristnogaeth) yng Nghymru. Rhaid i'r dysgu a'r addysgu hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol (megis anffyddiaeth).

Nid yw'r darpariaethau crefydd, gwerthoedd a moeseg yn atal ysgol rhag ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr yn ei chweched dosbarth fynychu dosbarthiadau crefydd, gwerthoedd a moeseg. Nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n gwneud hyn rhag darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol i'w dysgwyr chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol; mater i'r ysgol yw pennu cynnwys darpariaeth o'r fath o hyd.

Daw'r gofynion hyn i rym o fis Medi 2027.

Lle y bo'n berthnasol, mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir hefyd ystyried gofynion cwricwla lleol sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â dysgwyr rhwng 16 a 18 oed a nodir yn adrannau 33A i 33O o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (nid yw'r Ddeddf yn newid y gofynion hyn).

# Lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gofynion ar gyfer *lleoliadau*. Dylid hefyd ei darllen ar y cyd â'r adrannau sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb; crefydd, gwerthoedd a moeseg; *gyrfaoedd a phrofiadau â byd gwaith*, a gofynion ehangach.
Mae adran 80 o'r Ddeddf yn diffinio ystyr lleoliadau o'r fath.

## Datblygiu ac asesu

Nid oes unrhyw *ddyletswydd* ar leoliadau i gynllunio cwricwlwm. Yn lle hynny, mae'r Ddeddf (**adran 13**) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cwricwlwm sy'n addas i'w ddefnyddio mewn lleoliadau. Rhaid i'r cwricwlwm hwnnw gydymffurfio â gofynion Cwricwlwm i Gymru, gan

gynnwys yr elfennau gorfodol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r cwricwlwm hwn yn barhaus a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Mae'r cwricwlwm hwn wedi'i gyhoeddi ar Hwb.

Er y gall fod yn fuddiol iddyn nhw wneud hynny, nid yw'n ofynnol i leoliadau ddefnyddio'r cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru; gallan nhw ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain.

Fodd bynnag, os bydd lleoliad yn penderfynu datblygu ei gwricwlwm ei hun, rhaid iddo sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cysyniadau a'r gofynion gorfodol a nodir yn y Ddeddf.

Mae dyletswydd ar leoliadau i wneud trefniadau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu ganddyn nhw, ac i roi'r trefniadau hynny ar waith. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, gall lleoliadau ddewis mabwysiadu'r trefniadau asesu y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cyhoeddi cyn mis Medi 2022.

# Mabwysiadu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a'u rhoi ar waith

Rhaid i *leoliadau* fabwysiadu cwricwlwm sy'n cydymffurfio â'r cysyniadau a'r gofynion gorfodol, a chyhoeddi crynodeb ohono. Efallai mai'r cwricwlwm a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru fydd y cwricwlwm hwn, ond fel y nodwyd uchod, nid yw hynny'n ofynnol.

O ran cynnwys crynodebau cyhoeddedig o'r cwricwlwm, mae'n bosibl y caiff canllawiau manylach eu cyhoeddi maes o law. Am y tro, argymhellwn y dylai crynodebau o'r fath gynnwys:

- sut mae'r cwricwlwm yn bodloni'r elfennau gofynnol a nodir yn y fframwaith cenedlaethol hwn, gan ddechrau gyda'r pedwar diben
- gwybodaeth am sut mae'r lleoliad yn ymdrin â chynnydd dysgwyr a'i drefniadau ar gyfer asesu
- sut y bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys y broses ar gyfer casglu adborth gan rieni a diwygio'r cwricwlwm yn barhaus

Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran y ffordd y mae lleoliadau yn mabwysiadu eu cwricwlwm, ond dylen nhw allu dangos sut maen nhw wedi gwneud hyn.

Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod lleoliadau yn eu hardal yn rhoi eu cwricwla ar waith mewn ffordd sy'n:

- galluogi pob dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y **pedwar diben**
- sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig cyfleoedd priodol i bob dysgwr wneud cynnydd ac sy'n seiliedig ar yr **egwyddorion cynnydd** ym mhob Maes
- addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob dysgwr
- ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob dysgwr (os oes rhai)
- sicrhau dysgu ac addysgu eang a chytbwys i bob dysgwr

Rhaid i'r cwricwlwm sy'n cael ei fabwysiadu gael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau dysgu ac addysgu ar gyfer pob dysgwr sydd:

- yn cwmpasu'r chwe Maes a'r holl elfennau gorfodol
- o ran addysg cydberthynas a rhywioldeb, yn addas ar gyfer cam datblygu'r dysgwr
- yn darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg blwraliaethol i ddysgwyr dan oedran ysgol gorfodol (dysgwyr rhwng 3 a 5 oed fel arfer)
- datblygu'r **sgiliau trawsgwricwlaidd** gorfodol

# Adolygu a diwygio

Rhaid i leoliad adolygu ei gwricwlwm yn barhaus a'i ddiwygio os na fydd yn bodloni'r cysyniadau a'r gofynion cynllunio a nodir uchod mwyach. Gall lleoliad ddiweddaru'r cwricwlwm ar unrhyw adeg, ond os bydd yn gwneud hynny, rhaid iddo hefyd gyhoeddi crynodeb diwygiedig.

Rhaid i leoliad adolygu ei drefniadau asesu'n barhaus a'u diwygio os na fyddan nhw'n cydymffurfio â'r gofynion asesu mwyach neu os bydd diwygiadau i'r cwricwlwm a fabwysiadwyd, p'un ai'r cwricwlwm a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yw'r cwricwlwm hwnnw, neu gwricwlwm a ddatblygwyd gan y lleoliad ei hun.

# Eithriadau

Mae'r rhain yn faterion y dylai lleoliadau eu hystyried wrth roi eu cwricwlwm ar waith o ddydd i ddydd.

## *O ran dysgwyr ag ADY*

Mae adran 41 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso eithriadau at ofynion y cwricwlwm i ddysgwyr ag ADY. Gall awdurdodau lleol ddatgymhwyso neu addasu'r gofynion o ran rhoi'r cwricwlwm ar waith, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â chynlluniau datblygu unigol o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r

Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 neu sydd ag anghenion addysgol arbennig o dan y Ddeddf Plant a Theuluoedd yn achos plant sy'n byw yn Lloegr. Dylid amlinellu'r broses o ddatgymhwyso neu addasu'r cwricwlwm yng nghynllun datblygu unigol y dysgwr, neu yn achos dysgwyr sy'n byw yn Lloegr ac yn cael eu haddysgu yng Nghymru, yn eu cynlluniau addysg, iechyd a gofal.

## *Eithriadau dros dro*

Ceir pŵer ar wahân ac ychwanegol yn adran 42 o'r Ddeddf i benaethiaid wneud eithriadau dros dro i'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith ar gyfer dysgwyr unigol. Bydd y rheoliadau yn galluogi penaethiaid i roi eithriadau dros dro ar waith mewn perthynas â gofynion y cwricwlwm, a nodi'r amgylchiadau lle y gellid eu cymhwyso (ni fydd yr amgylchiadau hynny'n cynnwys anghenion dysgu ychwanegol y dysgwr). Er enghraifft, pe bai dysgwr wedi bod yn sâl am gryn amser, ni fyddai'n ymarferol nac yn deg disgwyl iddo ymdopi â dysgu ac addysgu'r cwricwlwm llawn yn union ar ôl iddo ddychwelyd i'r ysgol. Bydd penaethiaid yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i ddatgymhwyso'r cwricwlwm cyfan neu ran ohono i ddysgwyr mewn amgylchiadau eithriadol am gyfnod penodol o amser.

## *Gwaith datblygu ac arbrofion*

Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i leoliadau (o dan adran 38 o'r Ddeddf) i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwaith datblygu neu arbrofion. Gall cyfarwyddyd o'r fath addasu neu ddatgymhwyso dyletswyddau i roi'r cwricwlwm ar waith am gyfnod penodol a bennir yn y cyfarwyddyd, fel y gellir gwneud y gwaith datblygu neu'r arbrawf. Felly, gellid defnyddio cyfarwyddyd i alluogi lleoliadau i gymryd rhan mewn rhaglen beilot ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm. Ceir amodau penodol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o'r fath, sy'n sicrhau bod y dysgwyr y mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt yn parhau i gael budd o gwricwlwm addas.

## Dyletswyddau ychwanegol

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau pellach i'r rhai a nodir yn y cyflwyniad uchod wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, megis cynllunio, mabwysiadu neu roi cwricwlwm ar waith. Rhaid iddyn nhw wneud y canlynol:

- *ystyried* iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr y mae arfer y swyddogaeth yn debygol o effeithio arnyn nhw (adran 63). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ystyried effaith unrhyw swyddogaeth ar iechyd meddwl a lles emosiynol y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff y dysgu ei gyflwyno, ei strwythuro a'i drefnu, ynghyd â'i le yng nghyd-destun ehangach yr ysgol, a fydd yn effeithio ar les y dysgwyr
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** i'r rhai sy'n darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu (adran 64)
- cydweithio ag *ysgolion, lleoliadau, unedau cyfeirio disgyblion*, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach os bydd gwneud hynny yn eu helpu i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf (adran 65)
- ystyried cais i gydweithio os daw cais o'r fath i law (erys y pwerau cydweithio a bennir ym Mesur Addysg (Cymru) 2011 mewn grym) (adran 65)
- *ystyried* unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf (adran 71)

# Unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gofynion ar gyfer *unedau cyfeirio disgyblion*. Dylid hefyd ei darllen ar y cyd â'r adrannau isod sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb; crefydd, gwerthoedd a moeseg; gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a gofynion ehangach.

**Mae adran 81** o'r Ddeddf yn diffinio ystyr unedau cyfeirio disgyblion.

## Cynllunio ac asesu

Rhaid i awdurdod lleol sicrhau cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddysgwr y mae'n gwneud trefniadau addysg ar ei gyfer o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion (ac awdurdodau lleol) hefyd sicrhau bod ganddyn nhw gwricwlwm sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf.

Mae'n rhaid i gwricwlwm wneud y canlynol:

- galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y **pedwar diben**
- darparu ar gyfer **cynnydd** priodol ar gyfer dysgwyr
- bod yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- bod yn eang ac yn gytbwys, cyn belled ag y bo'n briodol i ddysgwyr

Rhaid i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu sy’n:

- cwmpasu'r Maes **Iechyd a Lles**

- cwmpasu'r **Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb** (y mae'n rhaid iddo fod yn briodol i ddatblygiad y dysgwyr)
- datblygu'r **sgiliau trawsgwricwlaidd**

Rhaid i gwricwlwm hefyd wneud darpariaeth, lle y bo'n rhesymol bosibl ac yn briodol, ar gyfer dysgu ac addysgu yn:

- y Meysydd eraill
- yr elfennau gorfodol eraill

O ran cynnwys crynodebau cyhoeddedig o'r cwricwlwm, mae'n bosibl y caiff canllawiau manylach eu cyhoeddi maes o law. Am y tro, argymhellwn y dylai crynodebau o'r fath gynnwys:

• sut mae'r cwricwlwm yn bodloni'r elfennau gofynnol a nodir yn y fframwaith cenedlaethol hwn, gan ddechrau gyda'r pedwar diben
• gwybodaeth am sut mae'r uned cyfeirio disgyblion yn ymdrin â chynnydd dysgwyr a'i threfniadau ar gyfer asesu
• sut y bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys y broses ar gyfer casglu adborth gan rieni a diwygio'r cwricwlwm yn barhaus

# Asesu mewn unedau cyfeirio disgyblion

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro sy'n gyfrifol am yr uned cyfeirio disgyblion wneud trefniadau asesu parhaus i gefnogi cynnydd dysgwyr drwy'r flwyddyn ysgol, a'u rhoi ar waith, ac i wneud trefniadau ar gyfer asesu gallu a dawn dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm ar adeg cyrraedd y lleoliad.

# Mabwysiadu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a'u rhoi ar waith

Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n:

- galluogi'r dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig cyfleoedd priodol i'r dysgwr wneud cynnydd
- addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y dysgwr
- ystyried anghenion dysgu ychwanegol y dysgwr (os oes rhai)
- eang ac yn gytbwys, cyn belled ag y bo'n briodol i'r dysgwr

Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion wneud yn siŵr bod eu cwricwlwm yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau dysgu ac addysgu ar gyfer pob dysgwr sy'n:

- cwmpasu'r Maes Iechyd a Lles
- cwmpasu addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n addas i gam datblygu'r dysgwr)
- meithrin y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion hefyd ystyried pa gyfleoedd dysgu ac addysgu y byddai'n briodol eu cynnig i bob dysgwr yn y Meysydd eraill a'r elfennau gorfodol eraill; a sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, bod y cyfleoedd dysgu ac addysgu yn cael eu cynnig i'r dysgwr.

## Adolygu a diwygio

Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion adolygu eu cwricwlwm yn barhaus a'i ddiwygio os na fydd yn bodloni gofynion y Ddeddf mwyach. Yn yr un modd, rhaid i awdurdodau lleol adolygu cwricwla'r unedau cyfeirio disgyblion yn eu hardal yn barhaus a sicrhau y cânt eu diwygio yn ôl yr angen. Wrth ystyried a yw cwricwlwm ar gyfer dysgwr yn bodloni'r gofynion hynny, rhaid i'r awdurdod lleol *ystyried* gwybodaeth a gafwyd drwy unrhyw drefniadau asesu. Os caiff cwricwlwm uned cyfeirio disgyblion ei ddiwygio, rhaid iddi gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm diwygiedig.

Rhaid i'r Pwyllgor Rheoli, yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion a'r awdurdod lleol cyfrifol adolygu'n barhaus drefniadau asesu parhaus yr uned a'r trefniadau ar gyfer asesu disgyblion ar adeg eu derbyn, a rhaid iddyn nhw eu diwygio os na fyddant yn bodloni gofynion y *rheoliadau* mwyach, os caiff cwricwlwm yr uned ei ddiwygio, neu os byddant o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

## Darpariaeth ar gyfer lleoliadau pellach

Er gwybodaeth, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud rheoliadau ar y materion hyn, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion.

## Dyletswyddau ychwanegol

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau pellach i bersonau a restrir, gan gynnwys athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol, pan fyddan nhw'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon. Rhaid i'r personau a restrir:

- *ystyried* iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr y mae arfer y swyddogaeth yn debygol o effeithio arnyn nhw. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ystyried effaith unrhyw swyddogaeth ar iechyd meddwl a lles emosiynol y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff y dysgu ei gyflwyno,

ei strwythuro a'i drefnu, ynghyd â'i le yng nghyd-destun ehangach yr ysgol, a fydd yn effeithio ar les y dysgwyr

- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** i'r rhai sy'n darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu
- cydweithio ag unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, lleoliadau, ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach os bydd gwneud hynny yn eu helpu i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf
- ystyried cais i gydweithio os daw cais o'r fath i law (erys y pwerau cydweithio a bennir ym Mesur Addysg (Cymru) 2011 mewn grym)
- *ystyried* unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf

# Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gofynion i ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion. Dylid hefyd ei darllen ar y cyd â'r adrannau isod sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb; crefydd, gwerthoedd a moeseg; gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, a gofynion ehangach.

Diffinnir addysg heblaw yn yr ysgol o dan adran 19A o **Ddeddf Addysg 1996 (p.56)**.

## Cynllunio ac asesu

Rhaid i awdurdod lleol sicrhau cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddysgwr y mae'n gwneud trefniadau addysg ar ei gyfer o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod ganddynt gwricwlwm sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf.

Mae'n rhaid i gwricwlwm wneud y canlynol:

- galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y **pedwar diben**
- darparu ar gyfer **cynnydd** priodol ar gyfer dysgwyr
- bod yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y dysgwr
- bod yn eang ac yn gytbwys, cyn belled ag y bo'n briodol i'r dysgwr

Rhaid i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n:

- cwmpasu'r Maes **Iechyd a Lles**
- cwmpasu'r **Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb** (y mae'n rhaid iddo fod yn briodol i ddatblygiad y dysgwr)
- meithrin y **sgiliau trawsgwricwlaidd**

Rhaid i gwricwlwm hefyd wneud darpariaeth, lle y bo'n rhesymol bosibl ac yn briodol, ar gyfer dysgu ac addysgu yn:

- y Meysydd eraill

- yr elfennau gorfodol eraill

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol wneud trefniadau asesu parhaus i gefnogi cynnydd dysgwr drwy gydol y flwyddyn mewn perthynas â chwricwlwm a sicrhawyd o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 mewn lleoliad heblaw uned cyfeirio disgyblion. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol hefyd wneud trefniadau ar gyfer asesu gallu a dawn dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol, ar adeg eu derbyn i leoliad.

## Mabwysiadu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a'u rhoi ar waith

Rhaid i awdurdodau lleol (ar gyfer dysgwyr y maen nhw'n gwneud trefniadau addysg ar eu cyfer o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996) sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n:

- galluogi'r dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig cyfleoedd priodol i'r dysgwr wneud cynnydd
- addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y dysgwr
- ystyried anghenion dysgu ychwanegol y dysgwr (os oes rhai)
- eang ac yn gytbwys, cyn belled ag y bo'n briodol i'r dysgwr

## Adolygu a diwygio

Rhaid i awdurdod lleol adolygu'r cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddysgwr y mae'n gwneud trefniadau addysg ar ei gyfer o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (heblaw mewn unedau cyfeirio disgyblion) yn barhaus a rhaid iddo ei ddiwygio os na fydd yn cydymffurfio â'r Ddeddf mwyach. Wrth ystyried a yw cwricwlwm ar gyfer dysgwr yn bodloni'r gofynion hynny, rhaid i'r awdurdod lleol *ystyried* gwybodaeth a gafwyd drwy unrhyw drefniadau asesu.

Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu yn barhaus y trefniadau asesu parhaus a'r trefniadau ar gyfer asesu dysgwr ar adeg ei dderbyn mewn perthynas â chwricwlwm a sicrhawyd ar gyfer dysgwr. Rhaid iddo ddiwygio'r trefniadau hyn os na fyddan nhw'n bodloni gofynion y *rheoliadau* mwyach; os caiff y cwricwlwm a sicrhawyd ar gyfer dysgwr ei ddiwygio neu os bydd yr awdurdod lleol o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

## Darpariaeth ar gyfer lleoliadau pellach

Er gwybodaeth, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud rheoliadau ar y materion hyn, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion.

## Dyletswyddau ychwanegol

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau pellach i bersonau a restrir, gan gynnwys awdurdodau lleol, pan fyddan nhw'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon. Rhaid i'r personau a restrir:

- *ystyried* iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr y mae arfer y swyddogaeth yn debygol o effeithio arnyn nhw. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ystyried effaith unrhyw swyddogaeth ar iechyd meddwl a lles emosiynol y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff y dysgu ei gyflwyno, ei strwythuro a'i drefnu, ynghyd â'i le yng nghyd-destun ehangach yr ysgol, a fydd yn effeithio ar les y dysgwyr
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** i'r rhai sy'n darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu
- cydweithio ag unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, lleoliadau, ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach os bydd gwneud hynny yn eu helpu i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf
- ystyried cais i gydweithio os daw cais o'r fath i law (erys y pwerau cydweithio a bennir ym Mesur Addysg (Cymru) 2011 mewn grym)
- *ystyried* unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf

# Addysg cydberthynas a rhywioldeb

## Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn elfen orfodol o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a rhaid i gwricwlwm gyd-fynd â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i *ysgolion* a *lleoliadau* gynnwys y ddarpariaeth ddysgu a nodir yn y Cod. Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu addysg cydberthynas a rhywioldeb oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Nid yw dysgu ac addysgu yn cwmpasu elfen orfodol addysg cydberthynas a rhywioldeb chwaith oni bai eu bod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Caiff y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei gyflwyno a cheir cyfeiriadau ato yn **adran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb** yng nghanllawiau'r fframwaith. Cyhoeddir y Cod hwn o dan adran 8 o'r Ddeddf.

## Canllawiau addysg cydberthynas a rhywioldeb

Mae adran addysg cydberthynas a rhywioldeb yng nghanllawiau'r fframwaith hefyd yn cynnwys canllawiau ar ddatblygu addysg cydberthynas a rhywioldeb o fewn cwricwlwm a'i rhoi ar waith. Mae'r canllawiau hyn yn ganllawiau statudol ac fe'u cyhoeddir o dan adran 71 o'r Ddeddf. Rhaid i'r sawl sy'n

gyfrifol am gynllunio a datblygu cwricwlwm ddarllen ac *ystyried* y canllawiau hyn wrth gynllunio eu cwricwlwm.

O dan y Ddeddf, mae'r canllawiau hyn yn statudol ar gyfer y canlynol:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu addysg a dysgu i blentyn y tu allan i ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion (*addysg heblaw yn yr ysgol*)
- awdurdod lleol yng Nghymru

Fel yr amlinellir yn adran 50 o'r Ddeddf, rhaid i leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gynnwys darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu addysg cydberthynas a rhywioldeb, a rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n briodol o safbwynt datblygiad.

Caiff addysg cydberthynas a rhywioldeb ei chyflawni orau mewn partneriaeth ag ystod eang o bobl a sefydliadau. Felly, gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i fusnesau; cymunedau; sefydliadau elusennol a gwirfoddol yn y sector cyhoeddus a rhai eraill sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a lleoliadau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol i rieni a gofalwyr.

## Gofyniad plwraliaethol

Ym mhob ysgol a lleoliad, rhaid i addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol o ran ei chynnwys a'r modd y caiff ei haddysgu (gweler achos Dojan ac Eraill v. Germany 2011 rhif y cais. 319/08). Wrth ddefnyddio'r term plwraliaethol, rydym yn golygu pan fo cwestiynau o ran gwerthoedd yn codi, rhaid i ysgolion a lleoliadau ddarparu ystod o safbwyntiau ar bwnc, a fynegir yn gyffredin mewn cymdeithas. Mae hyn hefyd yn golygu darparu ystod o wybodaeth ffeithiol am faterion sy'n gysylltiedig ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Ym mhob ysgol, pan fo ysgolion yn ystyried credoau neu safbwyntiau penodol, rhaid cynnwys ystod o safbwyntiau ffydd eraill a safbwyntiau anghrefyddol ar y mater.

Er enghraifft, gallai ysgolion ddysgu am densiynau, anghytundeb neu ddadleuon presennol mewn cymdeithas, neu gallan nhw edrych ar

safbwyntiau gwahanol o fewn credoau ar faterion. Mae datblygu'r blwraliaeth hon yn bwysig er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus sy'n ymwybodol o ystod o safbwyntiau, gwerthoedd a chredoau gwahanol ac yn sensitif iddyn nhw. Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu â thensiynau posibl ac ymdrin â nhw.

Mae dealltwriaeth dda o safbwyntiau dysgwyr, gwerthoedd maen nhw'n eu meithrin a'u cefndiroedd yn ganolog i ddatblygu'r blwraliaeth hon. Gall cydberthnasau cadarnhaol â chymunedau ehangach helpu i greu cyd-destun adeiladol ar gyfer ystyried agweddau a thensiynau mewn ffordd sensitif.

## Hawliau plant

Mae hawliau plant o dan **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** yn ganolog i holl waith Llywodraeth Cymru, yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus i'r confensiwn ym mhopeth a wna.

Gall ysgolion a lleoliadau hefyd gysylltu'r hyn a ddysgir â *Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau*.

Caiff ysgolion a lleoliadau eu hannog hefyd i gysylltu dysgu'n effeithiol, lle y bo hynny'n briodol, â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (2010); a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â gofynion perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn benodol, dylai ysgolion a lleoliadau nodi bod cydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion) yng Nghymru, a'i fod yn gwneud synnwyr addysgol da i gydymffurfio â hi. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn helpu ysgolion i ganolbwyntio ar faterion allweddol sy'n peri pryder a sut i wella deilliannau ar gyfer pob dysgwr. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys nodi ble y gallwn gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu a meithrin cydberthnasau da, a lle y bo'n bosibl, liniaru effeithiau negyddol a all ddeillio o benderfyniadau.

Ym mhob ysgol a lleoliad, dylai dulliau addysgu adlewyrchu'r gyfraith (gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010) fel y bo'n gymwys i gydberthnasau, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn deall yn glir yr hyn a ganiateir a'r hyn na chaniateir gan y gyfraith, a goblygiadau cyfreithiol ehangach y penderfyniadau a wneir ganddyn nhw.

O dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, ni chaniateir i ysgolion wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn dysgwyr ar sail oedran, rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, neu gyfeiriadedd rhywiol (a elwir gyda'i gilydd yn *nodweddion gwarchodedig*). Mae'n rhaid i ysgolion wneud addasiadau rhesymol hefyd er mwyn lliniaru unrhyw anfantais.

Mae darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i ysgolion gymryd camau cadarnhaol, lle y gellir dangos eu bod yn rhai cymesur, i fynd i'r afael ag anfanteision penodol sy'n effeithio ar un grŵp oherwydd nodwedd warchodedig. Dylid ystyried hyn wrth gynllunio a chyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Dylai bob ysgol ystyried cyfansoddiad y dysgwyr yn ei hysgol, gan gynnwys eu rhywedd a'u hystod oedran, ac ystyried a yw'n briodol neu'n angenrheidiol sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael i ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o bosibl). Dylai ysgolion ystyried yr hyn y gallan nhw ei wneud i feithrin proses gyfathrebu ac ymddygiad iach, llawn parch rhwng dysgwyr, a chynnig amgylchedd sy'n herio cyfyngiadau canfyddedig yn seiliedig ar rywedd neu unrhyw nodwedd arall, gan gynnwys drwy feysydd y cwricwlwm a fel rhan o ddull ysgol gyfan.

## Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae Deddf 2015 yn rhoi ffocws ar drais yn erbyn menywod a merched drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau (awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol) o dan y Ddeddf (a ddiffinnir yn adran 2(2) o'r Ddeddf honno fel “swyddogaethau perthnasol”), roi sylw i'r angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy'n cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched neu sy'n

gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr. Fodd bynnag, rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau perthnasol roi sylw i bob mater perthnasol arall hefyd. Drwy wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn a gosod swyddogaethau ar y cyrff strategol hynny i lunio cynllun er mwyn dileu neu leihau ymddygiadau o'r fath.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyffwrdd â llawer o fywydau. Mae yna oblygiadau difrifol iawn i ddysgwyr, fel dioddefwyr eu hunain, mewn cartrefi lle y ceir cam-drin domestig. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd meddyliol a chorfforol a'u lles yn gyffredinol. Mae'n effeithio ar gydberthnasau â'u teulu a chyfoedion, a'r potensial i fwynhau cydberthnasau iach, hapus a llawn parch yn y dyfodol; a gall effeithio ar gyrhaeddiad addysgol nawr ac yn y dyfodol.

Bydd yna ddysgwyr a staff mewn ysgolion ar hyn o bryd sy'n dioddef, neu'n wynebu risg o ddefnyddio ymddygiad camdriniol yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu sydd wedi eu dioddef neu eu defnyddio yn y gorffennol. Dylai ysgolion a lleoliadau fod yn gyfrifol am sicrhau bod eu dysgwyr a'u staff yn ddiogel ac yn iach.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfle i Gymru arwain y ffordd o ran gwaith ataliol. Mae ysgolion a lleoliadau yn cynnig amgylchedd lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a llawn parch drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

Mae mabwysiadu dull ysgol gyfan o weithredu sy'n cynnwys addysg ataliol yn yr ysgol ac sydd hefyd yn cynnwys y gymuned ehangach yn hollbwysig.

Datblygwyd Canllaw Arferion Da ar gyfer Dull Addysg Gyfan Llywodraeth Cymru o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru ar y cyd â Cymorth i Ferched Cymru. Bwriedir iddo fod yn **becyn cymorth ymarferol a defnyddiol** ar gyfer cymhwyso egwyddorion dull addysg gyfan o ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd lleoliadau addysgol fel

amgylcheddau lle gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a llawn parch.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi **canllawiau ymarferol i lywodraethwyr ysgolion** ar yr angen i ddatblygu polisi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; sut i adnabod arwyddion o gam-drin a ble i gael cymorth iddyn nhw eu hunain, eu cydweithwyr neu eu dysgwyr.

# Crefydd, gwerthoedd a moeseg

## Statws cyfreithiol y canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg

Mae'r canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) a bwriedir iddyn nhw helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

Mae cyngor ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA) ar gael hefyd yng nghrynodeb deddfwriaeth Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

## Newidiadau deddfwriaethol ar gyfer darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg

O dan y Ddeddf, mae'r newidiadau deddfwriaethol isod wedi cael eu gwneud mewn perthynas ag addysg grefyddol.

### *Y newid o addysg grefyddol i grefydd, gwerthoedd a moeseg*

Mae'r newid enw yn adlewyrchu cwmpas estynedig addysg grefyddol (addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg) a sicrhau ei bod yn glir yn y ddeddfwriaeth ei hun y dylai'r pwnc gynnwys safbwyntiau athronyddol anghrefyddol. Mae'r ddarpariaeth yn y Ddeddf yn gysylltiedig â'r term “argyhoeddiadau athronyddol” o fewn ystyr Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1). Hynny yw, mae'n rhaid i addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg a ddarperir yn unol â'r Ddeddf gydymffurfio ag E2P1 yn yr ystyr bod

yn rhaid cynnwys addysgu am argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr E2P1.

## *Cwmpas crefydd, gwerthoedd a moeseg*

Mae'r Ddeddf yn gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg adlewyrchu credoau crefyddol yn ogystal â chredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol yn unol ag ystyr E2P1. Mae hyn yn cynnwys credoau fel dyneiddiaeth, anffyddiaeth a seciwlariaeth. Dim ond enghreifftiau o'r math o gredoau sydd o fewn cwmpas crefydd, gwerthoedd a moeseg yw'r rhain, yn hytrach na rhestr hollgynhwysfawr. Mae'r newidiadau hyn yn nodi'n glir beth sydd eisoes yn ofynnol yn ôl y gyfraith mewn perthynas ag addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg blwraliaethol.

## *Ystyr argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol*

Wrth ystyried crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, mae'n ddefnyddiol cyfeirio at argymhelliad Cyngor Ewrop 2008 ar ddimensiwn argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol o fewn addysg sy'n nodi:

“Religious and non-religious convictions are diverse and complex phenomena; they are not monolithic. In addition, people hold religious and non-religious convictions to varying degrees, and for different reasons; for some such convictions are central and may be a matter of choice, for others they are subsidiary and may be a matter of historical circumstances. The dimension of religions and non-religious convictions within intercultural education should therefore reflect such diversity and complexity at a local, regional and international level.”

(Cyngor Ewrop 2008a, atodiad; paragraff 3).

**Signposts – Policy and practice** for teaching about religions and non-religious worldviews in intercultural education (Cyngor Ewrop, 2014, t.67).

Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at “argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol” ac nid at “argyhoeddiadau athronyddol”. Mae hynny am fod yr adran sy'n cyfeirio at 'grefyddau' eisoes yn cyfeirio at argyhoeddiadau athronyddol crefyddol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i crefydd, gwerthoedd a moeseg gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Mae'r llysoedd wedi penderfynu nad yw'n gyfystyr â'r termau ‘safbwyntiau’ a ‘syniadau’ pan gaiff ei ddefnyddio ar ei ben ei hun. Mae'n dynodi safbwyntiau sy'n cyrraedd lefel benodol o grymusrwydd, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd (Valsamis v Gwlad Groeg, §§ 25 a 27). Felly, pan wrthododd rhieni dderbyn cosbi corfforol yn ysgol eu plant, roedd hynny yn unol â'u hargyhoeddiadau athronyddol.

Isod ceir rhai enghreifftiau lle mae'r llysoedd wedi penderfynu mai argyhoeddiad athronyddol yw cred o fewn ystyr y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dylid cofio mai dim ond enghreifftiau yw'r rhain, ac nid rhestr hollgynhwysfawr.

- Penderfynwyd mai argyhoeddiadau athronyddol yw anffyddiaeth, agnostigiaeth a sgeptigaeth (R (Williamson) v Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth [2005] AC 246, paragraffau 24 a 75).
- Penderfynwyd bod heddychiaeth yn argyhoeddiad athronyddol (Arrowsmith v y Deyrnas Unedig, adroddiad y Comisiwn, § 69).
- Penderfynwyd bod gwrthwynebiad ar sail egwyddor i wasanaeth milwrol yn argyhoeddiad athronyddol (Bayatyan v. Armenia [GC]).
- Penderfynwyd bod figaniaeth a gwrthwynebu defnyddio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid neu a brofir ar anifeiliaid yn argyhoeddiad athronyddol. (W v y Deyrnas Unedig, penderfyniad y Comisiwn).

### *Ystyr crefydd*

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg gael ei chynllunio i gynnwys elfen orfodol crefydd, gwerthoedd a moeseg. Eglurir ystyr hynny yn adran 375A o Ddeddf Addysg 1996 (Deddf 1996) sy'n cyfeirio at draddodiadau crefyddol. Yn gryno, rhaid cynnwys amrywiaeth o grefyddau gwahanol.

Isod ceir rhai enghreifftiau lle mae'r llysoedd wedi penderfynu mai argyhoeddiad athronyddol yw cred o fewn ystyr y Confensiwn Ewropeaidd ar

Hawliau Dynol. Enghreifftiau yn unig o rai crefyddau yw'r rhain, ac nid rhestr hollgynhwysfawr.

- Alefiaeth (Cumhuriyetçi Eğitim ve Kültür Merkezi Vakfı v; İzzettin Doğan ac Eraill v Twrci).
- Bwdhaeth (Jakóbski v Gwlad Pwyl).
- Y gwahanol enwadau Cristnogol ymhlith llawer o awdurdodau eraill (Svyato-Mykhaylivska Parafiya v Wcrain; Savez crkava “Riječ života” ac Eraill v Croatia).
- Y gwahanol ffurfiau ar Hindŵaeth, gan gynnwys mudiad Hare Krishna (Kovaļkovs v Latfia (dec.); Genov v Bwlgaria.
- Y gwahanol ffurfiau ar Islam (Hassan a Tchaouch v Bwlgaria [GC]; Leyla Şahin v Twrci [GC]), gan gynnwys Ahmadiaeth (Metodiev ac Eraill v Bwlgaria).
- Iddewiaeth (Cha’are Shalom Ve Tsedek v. Ffrainc [GC]; Francesco Sessa v Yr Eidal).
- Sikhaeth (Phull v. Ffrainc (Dec.); Jasvir Singh v Ffrainc).
- Tystion Jehofa (Religionsgemeinschaft der Zeugen Jehovas ac Eraill v Awstria; Tystion Jehofa Moscow ac Eraill v Rwsia).

## Ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ac ysgolion gwirfoddol heb gymeriad crefyddol

Yn achos ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu crefydd, gwerthoedd a moeseg fod wedi cael ei chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig. (Y “maes llafur cytunedig” yng nghyd-destun yr Atodlen yw'r maes llafur crefydd, gwerthoedd a moeseg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 375A o Ddeddf 1996 i'w ddefnyddio mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod.) Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg hon fod ar gael i bob dysgwr.

## Ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol

I'r ysgolion hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu crefydd, gwerthoedd a moeseg fod wedi cael ei chynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig.

Fodd bynnag, yn achos yr ysgolion hyn, ceir gofyniad ychwanegol a fydd ond yn gymwys os nad yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol na daliadau ei chrefydd na'i henwad crefyddol.

Y cam cyntaf wrth benderfynu a yw'r gofyniad ychwanegol hwn yn berthnasol yw ystyried a yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig yn cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaeth yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg. Os nad oes darpariaeth yn y weithred ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg, y cam nesaf fydd ystyried a yw'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â daliadau'r grefydd neu'r enwad a nodwyd mewn perthynas â'r ysgol drwy orchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998). Dim ond os nad yw'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth neu'r daliadau perthnasol y bydd y gofyniad ychwanegol yn berthnasol. Os bydd y gofyniad ychwanegol hwn yn berthnasol, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau dysgu ac addysgu a ddarperir i'r dysgwyr gael eu cynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig. Fodd bynnag, ceir eithriad i'r gofyniad cyffredinol hwn sy'n galluogi rhieni dysgwr i ofyn i'r ysgol, yn lle hynny, roi'r ddarpariaeth ychwanegol i'w plentyn sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad. Os gwneir cais o'r fath, rhaid cydymffurfio ag ef.

## Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol

I'r ysgolion hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer dysgu ac addysgu mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad.

Unwaith eto, ceir gofyniad ychwanegol. I ysgolion o'r math hwn, dim ond os nad yw'r ddarpariaeth a gynlluniwyd (hynny yw, sy'n cyd-fynd â'r weithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau crefydd neu enwad yr ysgol) yn cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig y bydd y gofyniad ychwanegol yn berthnasol. Yn yr achos hwn, rhaid i gwricwlwm yr ysgol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithgareddau dysgu ac addysgu a gynhelir ar gyfer dysgwyr fod yn rhai y mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ei chrefydd neu ei henwad. Ond, unwaith eto, ceir eithriad i'r gofyniad cyffredinol hwn sy'n galluogi rhieni neu ofalwyr dysgwr i ofyn i'r ysgol, yn lle hynny, roi'r ddarpariaeth ychwanegol i'w plentyn a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig. Os gwneir cais o'r fath, rhaid cydymffurfio ag ef.

## Newidiadau i gyfansoddiad cynadleddau meysydd llafur cytunedig a chynghorau ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer penodi personau sy'n cynrychioli pobl â chredoau athronyddol anghrefyddol yn yr un modd ag y maen nhw'n caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli pobl â chredoau crefyddol.

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu ar y personau priodol i'w penodi. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch penodiad yn dibynnu ar benderfyniad yr awdurdod lleol perthnasol y byddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod traddodiadau perthnasol yr ardal yn cael eu hadlewyrchu'n briodol. Caiff Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol eu hailenwi'n Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod aelodaeth y grŵp yn gymesur â chryfder pob crefydd, enwad neu argyhoeddiad yn ei ardal

leol yn fras (gweler yr is-adran newydd (6A) a (6B) o adran 390 a fewnosodwyd gan baragraff 9(8) o'r Atodlen.

## Crefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16

Er mai i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol, mae'r canllawiau hyn wedi'u cynnwys yma er cyflawnrwydd.

Nid yw crefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16 yn orfodol mwyach yn rhinwedd darpariaethau'r Ddeddf. Yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf, gall pob dysgwr dros 16 oed bellach ddewis crefydd, gwerthoedd a moeseg lle, yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i bob dysgwr chweched dosbarth astudio addysg grefyddol. Os bydd dysgwr yn dewis crefydd, gwerthoedd a moeseg, yna bydd yn rhaid i'r ysgol neu'r coleg ddarparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r egwyddor y dylai dysgwyr sy'n ddigon aeddfed allu gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu eu hunain.

Os bydd dysgwr yn gofyn am addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol ag adran 61 o'r Ddeddf, rhaid i'r addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg gael ei chynllunio mewn ffordd sydd:

- yn adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

Gweler y paragraffau uchod am esboniad o'r termau.

Nid yw adran 61 o'r Ddeddf yn atal ysgol rhag ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr yn ei chweched dosbarth fynychu dosbarthiadau crefydd, gwerthoedd a moeseg gorfodol; ac nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n gwneud hyn rhag darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol i'w dysgwyr chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol (“crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol”).

Mater i'r ysgol yw cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol o'r fath o hyd.

## Cynadleddau meysydd llafur cytunedig a'r maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg

Mae'r adran hon wedi'i bwriadu ar gyfer awdurdodau lleol, Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig er mwyn egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg yn Cwricwlwm i Gymru a'r maes llafur cytunedig o dan y Ddeddf.

## Newidiadau deddfwriaethol

Mae'r newidiadau deddfwriaethol yn y Ddeddf mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau cyfreithiol Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog fel a ganlyn.

- Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg adlewyrchu credoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol yn unol ag ystyr E2P1.
- Darpariaeth ar gyfer penodi personau sy'n cynrychioli pobl ag argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn yr un modd ag y maen nhw’n caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli pobl â chredoau crefyddol.

Dyma'r unig newidiadau deddfwriaethol yn y Ddeddf sy'n ymwneud â rolau a chyfrifoldebau cyfreithiol Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r holl rolau a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill a oedd ganddynt eisoes wedi newid.

Nid yw'r Ddeddf yn pennu erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig gyntaf baratoi ac argymell maes llafur cytunedig. Rhaid i'r awdurdod lleol fabwysiadu maes llafur newydd yn lle'r maes llafur cytunedig presennol i'w ddefnyddio mewn ysgolion a lleoliadau sy'n rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith. Felly, bydd angen i Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynadleddau Meysydd

Llafur Cytunedig gael eu sefydlu mewn da bryd i gyflwyno maes llafur cytunedig yn unol â'r broses o roi Cwricwlwm i Gymru ar waith yn 2022. Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am weinyddu hyn.

## Nodau'r maes llafur cytunedig

Ni fwriedir i'r maes llafur cytunedig fod yn gynllun gwaith. Yn hytrach, bwriedir iddo fod yn ganllaw ac yn bwynt cyfeirio cyfreithiol defnyddiol i ysgolion er mwyn eu helpu i gynllunio cwricwlwm priodol a pherthnasol ar gyfer eu dysgwyr sy'n cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Mae dull Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar egwyddor sybsidiaredd ac, fel y cyfryw, dylai pob maes llafur cytunedig gydnabod ac adlewyrchu ymreolaeth pob ysgol a lleoliad wrth gyflawni eu cwricwla eu hunain. Un o fwriadau'r canllawiau statudol hyn ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng pwyslais rhwng llyw canolog Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r gofynion o ran gwneud penderfyniadau lleol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg, fel y nodir mewn meysydd llafur cytunedig ledled Cymru. Felly, mae'r canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg wedi'u hysgrifennu fel sail i'r maes llafur cytunedig. Os bydd awdurdod lleol yn dymuno mabwysiadu neu addasu'r canllawiau hyn fel ei faes llafur cytunedig, caiff wneud hynny. Yn y pen draw, mater i'r darparwr fydd sicrhau y caiff addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg anenwadol ei darparu'n blwraliaethol.

Dylai meysydd llafur cytunedig gydnabod, er y dylai pob ysgol addysgu eu dysgwyr am y prif grefyddau a'u traddodiadau yng Nghymru, fod credoau eraill (gan gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol megis dyneiddiaeth ac anffyddiaeth) bellach yn rhan gydnabyddedig o fywyd mewn ardaloedd lleol yng Nghymru a thu hwnt. Adlewyrchir hyn yn y Ddeddf sy'n nodi'r canlynol am y maes llafur cytunedig:

- rhaid iddo adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- rhaid iddo hefyd adlewyrchu'r ffaith bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

## Y maes llafur cytunedig a Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i sefydlu'r gydberthynas rhwng y maes llafur cytunedig a Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Rhaid i awdurdodau lleol, Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ystyried Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys y canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytunedig. Y maes llafur cytunedig yw'r pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg mewn ysgolion a lleoliadau, felly mae'n hanfodol bod y maes llafur cytunedig yn cydnabod ac yn adlewyrchu dull Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg er mwyn taro cydbwysedd a chynnal cydlyniaeth ym mhob rhan o’r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn galluogi Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig i sefydlu'r gydberthynas hon rhwng y maes llafur cytunedig a Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, a hynny'n hyderus. Mae hyn yn cynnwys canllawiau er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod ehangder a dyfnder priodol o fewn crefydd, gwerthoedd a moeseg gan gydnabod egwyddor sybsidiaredd ar yr un pryd.

## Statws y maes llafur cytunedig

Corff statudol a ddaw ynghyd i baratoi ac argymell neu ailystyried maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg i'r awdurdod lleol ei fabwysiadu yw Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am alw'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ynghyd, sy'n golygu bod dyletswydd arno i ddarparu cyllid a chymorth ar gyfer ei gwaith. Mae'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn gorff cyfreithiol ar wahân i Gyngor Ymgynghorol Sefydlog. Fodd bynnag, mae iddi'r un strwythur grwpiau â'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog:

- Grŵp A – grŵp o bersonau i gynrychioli: enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau; argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru, wrth benodi personau o'r fath, gymryd pob cam

rhesymol i sicrhau bod nifer yr aelodau a benodir i'r pwyllgor i gynrychioli crefydd, enwad neu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol, cyn belled ag y bo'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r pwyllgor yn effeithlon, yn adlewyrchu cryfder y grefydd, yr enwad neu'r argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal

- Grŵp B – grŵp o bersonau i gynrychioli'r cymdeithasau hynny sy'n cynrychioli athrawon a ddylai, ym marn yr awdurdod, gael eu cynrychioli, gan ystyried amgylchiadau'r ardal
- Grŵp C – grŵp o bersonau i gynrychioli'r awdurdod

Nid oes darpariaeth gyfreithiol i Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig gynnwys aelodau cyfetholedig, ond gall geisio'r cyngor y tybia ei fod yn briodol gan y rhai hynny y tybia eu bod yn briodol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg effeithiol yn ei hardal.

## Gofynion cyfreithiol ar gyfer cynhadledd maes llafur cytunedig

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu a chefnogi Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ac mae'n rhaid i'r Gynhadledd:

- paratoi maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg i'w fabwysiadu gan awdurdod addysg lleol a all gynnig darpariaeth wahanol mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o'r canlynol:

  (a) ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol

  (b) dysgwyr

- sicrhau bod y maes llafur yn adlewyrchu'r ffaith:

  (a) mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru

  (b) bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

- ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru
- sicrhau bod unrhyw is-bwyllgorau a benodir gan y gynhadledd yn cynnwys o leiaf un aelod o bob un o'r pwyllgorau sy'n rhan o'r gynhadledd

- rhoi un bleidlais yn unig i bob un o'r pwyllgorau sy'n rhan o'r gynhadledd, ar unrhyw gwestiwn y bydd y gynhadledd neu unrhyw un o'i his-bwyllgorau yn penderfynu arno
- ceisio cytundeb unfrydol ar faes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg i'r awdurdod addysg lleol ei fabwysiadu

Yn yr un modd â Chyngor Ymgynghorol Sefydlog, rhaid i Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig hefyd gyfarfod yn gyhoeddus a chael ei chadeirio gan rywun a benodir gan yr awdurdod lleol, neu gael caniatâd i ddewis ei Chadeirydd ei hun.

Pryd bynnag y bydd awdurdod lleol o'r farn (ar sail sylwadau a wneir iddo neu fel arall) y dylid ailystyried y maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am alw'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ynghyd at y diben hwnnw. Dylai unrhyw gynhadledd i ailystyried maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg gael ei chynnal o fewn pum mlynedd i'r diwrnod penodedig pan gafodd y maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg ei fabwysiadu gan yr awdurdod lleol.

## Cwestiynau i gynhadledd maes llafur cytunedig a chyngor ymgynghorol sefydlog eu hystyried

- A gaiff argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol eu cynrychioli'n briodol?
- A fyddai'n ddefnyddiol nodi grwpiau ffydd a chred a gaiff eu cynrychioli'n lleol yn y maes llafur cytunedig?
- A fyddai'n briodol cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i ysgolion a lleoliadau am y grwpiau ffydd a chred hyn a sut i gysylltu â hwy?
- A fyddai'n ddefnyddiol cynnwys deunydd ac adnoddau enghreifftiol i ategu'r maes llafur y cytunir arno'n lleol?
- Sut y gellir hwyluso cydweithio rhwng y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ac ysgolion yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau y caiff maes llafur cytunedig priodol ei lunio ar gyfer eich ardal?
- A oes unrhyw grwpiau neu sefydliadau eraill yng Nghymru a allai helpu'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig i ddatblygu'r maes llafur y cytunir arno'n lleol ar gyfer eich ardal?
- Sut y caiff y maes llafur y cytunir arno'n lleol ei hyrwyddo i ysgolion a lleoliadau a phartïon eraill â diddordeb yn eich ardal?

- Sut y bydd eich Cyngor Ymgynghorol Sefydlog yn helpu ysgolion a lleoliadau i ddarparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg sy'n ystyried y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol?
- Yn ogystal â'r canllawiau statudol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, a oes angen i ysgolion a lleoliadau yn eich ardal gael unrhyw beth arall i'w helpu i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg mewn ffyrdd sy'n cynnal egwyddor sybsidiaredd? Er enghraifft:
- cyngor ar gysylltiadau â Meysydd eraill
- awgrymiadau ar gyfer addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg ddewisol ôl-16
- rhestr termau
- cyngor ar ymdrin â materion sensitif o fewn crefydd, gwerthoedd a moeseg
- enghreifftiau o addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg feirniadol, wrthrychol a phlwraliaethol

# Yr hawl i dynnu'n ôl yn y Cwricwlwm i Gymru

O fis Medi 2022, ni fydd gan rieni hawl i dynnu dysgwyr yn ôl o addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg hyd at Flwyddyn 6, gan gynnwys y flwyddyn ysgol honno, gan y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei roi ar waith ym mhob ysgol a lleoliad cynradd o'r dyddiad hwn ymlaen.

Rhoddir y canllawiau isod er mwyn helpu Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog i gynghori ysgolion a lleoliadau uwchradd ar ddiddymu'r hawl i dynnu'n ôl o addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg yn gywir ac yn briodol fesul cam ar gyfer dysgwyr o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11 o fis Medi 2022.

O ran dysgwyr Blwyddyn 7, bydd gan ddarparwyr hyblygrwydd i ‘optio i mewn’ i’r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Rhoddir canllawiau ar ‘optio i mewn’ yn **Y daith i weithredu'r cwricwlwm**.

Yn ystod y cyfnod o gyflwyno'r cwricwlwm, pan fydd ysgol neu leoliad uwchradd yn ‘mabwysiadu’ fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn penodol, ni fydd hawl i dynnu dysgwyr yn ôl yn y grŵp blwyddyn hwnnw o'r flwyddyn academaidd honno ymlaen. Felly, ar gyfer yr ysgolion a'r lleoliadau uwchradd hynny na fyddan nhw’n optio i mewn i’r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022, bydd yr hawl i dynnu'n ôl yn parhau ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 yn ystod blwyddyn academaidd 2022 i

2023, ond daw i ben ar gyfer eu dysgwyr Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024.

O fis Medi 2023, ni fydd hawl i dynnu dysgwyr Blwyddyn 7 nac 8 yn ôl, gan y bydd pob darparwr wedi rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ar gyfer y dysgwyr hynny. Ar ôl hynny, bydd y broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith fesul cam yn parhau, a chaiff yr hawl i dynnu'n ôl ei diddymu ar gyfer:

- dysgwyr Blwyddyn 9 ym mis Medi 2024
- dysgwyr Blwyddyn 10 ym mis Medi 2025
- dysgwyr Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026

Mae rhagor o wybodaeth i ysgolion a lleoliadau am y broses ar gyfer optio i mewn i Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â dysgwyr Blwyddyn 7 ar gael yn **Y daith i weithredu'r cwricwlwm**.

# Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

## Statws y canllawiau

Ceir canllawiau ar sut i ddatblygu cwricwlwm ysgol neu leoliad i ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith) yn **adran gynllunio eich cwricwlwm** y canllawiau fframwaith hyn, yn ogystal ag ar gyfer pob Maes.

Mae'r canllawiau ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o'r Ddeddf. Rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol am gynllunio a datblygu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ddarllen ac *ystyried* y canllawiau hyn wrth gynllunio eu cwricwlwm.

O dan y Ddeddf, mae'r canllawiau hyn yn statudol ar gyfer:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu dysg ac addysg i blentyn y tu allan i ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion (addysg heblaw yn yr ysgol)
- awdurdod lleol yng Nghymru

Fel yr amlinellir yn adran 50 o'r Ddeddf, nid yw'n ofynnol i *addysg heblaw yn yr ysgol* gynllunio cwricwlwm ar gyfer pob Maes. Fodd bynnag rhaid iddyn nhw gynnwys Maes Iechyd a Lles, a chynnwys y Meysydd eraill dim ond i'r graddau sy'n rhesymol bosibl ac sy'n briodol. Dylai'r lleoliadau hyn ddarllen yr adran ar gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y canllawiau hyn, ac yn benodol ochr yn ochr â'r Maes Iechyd a Lles ynglŷn â sut i roi cyd-destun i gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o fewn y cwricwlwm. Dylai'r athro sy'n gyfrifol, y pwyllgorau rheoli a'r awdurdodau lleol ddarllen canllawiau ychwanegol ar gynllunio cwricwlwm ar gyfer y lleoliadau hyn.

Gall y canllawiau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fod yn ddefnyddiol ar gyfer y rheini sy'n rhan o'r gwaith cynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm, megis:

- uwch-arweinwyr
- cydlynwyr neu arweinwyr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- cydlynwyr lleoliadau gwaith
- pob ymarferydd mewn ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg eraill sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a lleoliadau, megis sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
- y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Caiff gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith eu cyflawni orau mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau. Er nad yw'n statudol iddyn nhw, gallai fod yn ddefnyddiol i'r bobl a'r sefydliadau canlynol sydd â diddordeb mewn addysg a phrofiadau byd gwaith nodi'r canllawiau hyn:

- busnesau, cymunedau, sefydliadau elusennol a gwirfoddol a rhai eraill sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a lleoliadau
- anogwyr dysgu
- tiwtoriaid personol
- Gyrfa Cymru
- rhieni a gofalwyr

# Gofynion ehangach

Ceir amrywiaeth o ofynion deddfwriaethol y gall fod angen i leoliadau ac ysgolion eu hystyried wrth reoli eu sefydliadau. Ni fwriedir i'r adran hon

fanylu ar y rhain, ond yn hytrach mae'n fan cyfeirio i'r rhai sydd â goblygiadau o ran y cwricwlwm ac asesu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nid yw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf 2015) yn gosod unrhyw ddyletswyddau penodol ar ysgolion. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol a chenedlaethol (ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill) sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
Mae angen i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, ymhlith eraill, fynd i'r afael â hyn drwy bennu amcanion sydd wedi'u cynllunio i gynyddu eu cyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod lles i'r eithaf, a chymryd pob cam rhesymol i arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r nodau hynny.

Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw gymhwyso *egwyddor datblygu cynaliadwy*, sy'n cynnwys mabwysiadu *ffyrdd o weithio* a fydd yn helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy pellach.
Un o amcanion lles Gweinidogion Cymru yw: 'cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial'. Mae ein dull o ddiwygio'r cwricwlwm yn cyfrannu at gyflawni'r amcan hwnnw, a thrwy hynny, yn cynyddu ein cyfraniad at y nodau lles i'r eithaf. Mae hefyd yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio.

Rydym yn annog ysgolion, lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, i ystyried sut y gallan nhw ymgorffori'r ffyrdd o weithio a chyfrannu at y nodau lles wrth gynllunio, mabwysiadu a rhoi eu cwricwlwm ar waith, a chynnwys dysgwyr, rhieni a gofalwyr a'u cymunedau ehangach, busnesau a phartneriaid yn y broses honno.

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Hawliau dynol yw'r rhyddidau a'r amddiffyniadau y mae gan bawb yr hawl iddynt. Mae gan ddysgwyr hawliau dynol penodol sydd wedi'u hymgorffori yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** a **Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**, gan gynnwys protocolau dewisol. Yng Nghymru, mae hawliau plant yn hawl sylfaenol, nid yn rhywbeth ychwanegol dewisol. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori o dan y gyfraith drwy **Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**.

Wrth gynllunio, mabwysiadu a rhoi eu cwricwlwm ar waith, mae adran 64 o'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar ysgolion, lleoliadau a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ymhlith y rhai sy'n darparu dysgu ac addysgu.

Ceir rhagor o ganllawiau ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn adran **Hawliau dynol**  Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn creu fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth dysgu ychwanegol, drwy nodi anhenion yn gynnar mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, rhoi cymorth a threfniadau monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Mae'r fframwaith cyfreithiol a sefydlwyd gan y Ddeddf hon yn chwarae rôl hanfodol i alluogi'r cwricwlwm i greu ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.

Nod y Fframwaith yw galluogi dysgu ehangach a sicrhau bod pob dysgwr ag **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn gallu gwireddu eu potensial yn llawn.
Nod y system ADY a'r Fframwaith yw creu system addysg gynhwysol a theg yng Nghymru. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn rhoi'r egwyddor hon ar waith drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd.

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2020 – Awst 2021

DRAFFT

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Garem Jackson

**CYNNWYS**

**ADRAN 1:  CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1  Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**ADRAN 2:  CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1  Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2  Y Maes Llafur Cytûn
2.3  Pa mor dda yw safonau?
2.4  Ymateb yr Awdurdod Lleol
2.5  Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6  Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7  Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3:  ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG     Gwynedd  2020 - 2021
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Arweiniad CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarnu safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd
3.5 Arweiniad CYSAG Gwynedd i aelodau sy’n mynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion

DRAFFT

## ADRAN 1:
## CRYNODEB GWEITHREDOL

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

DRAFFT

**Y Cynghorydd Paul Rowlinson**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2020/2021**

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 9 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid, ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog adnoddau addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol. Oherwydd sefyllfa COVID-19 fe ddaeth ymweliadau ESTYN i ben yn ystod Mawrth 2020 ac ni gynhaliwyd unrhyw ymweliad yn ystod y flwyddyn o Medi 2020 hyd Awst 2021

#### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni thrafodwyd asesiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2020-2021.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Annog adrannau uwchradd i ymateb i unrhyw negeseuon a amlygir yn sgil dadansoddi data perfformiad mewnol ac allanol ysgolion ac yn adroddiad arholwyr CBAC.
- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC a hwyluso cyfleoedd iddynt gydweithio gydag ymarferwyr arweiniol GwE wrth ymateb i fanylebau yr arholiadau TGAU a Safon Uwch newydd.



DRAFT

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mair Huws, Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac i Gyngor Gwynedd.

Mae cynllun gweithredu CYSAG Gwynedd yn amlinellu pedair blaenoriaeth ar gyfer 2017-20 (gweler atodiad 3.6). Mae'r blaenoriaethau yn codi o drafodaethau'r flwyddyn ac adroddiadau blynyddol 2016-17, 2018-19. Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau cyllidol, nid oes bellach gwasanaeth ymgynghorol lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth neu hyfforddiant i athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol ac mae'n her gynyddol i CYSAGau i allu cynghori a chefnogi ysgolion.

**Blaenoriaeth 1:** Cwricwlwm i Gymru, Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau a'r "Yr hyn sy'n bwysig"
**Blaenoriaeth 2:** Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd da/da iawn
**Blaenoriaeth 3:** Cefnogaeth i GYSAG Gwynedd?
**Blaenoriaeth 4:** Profiadau cyfoethog – cyfraniad partneriaid lleol i ddatblygu dealltwriaeth o addysg grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd?

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAG Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Ym mis Mawrth 2018, hysbyswyd clerc CYSAG Gwynedd na fyddai GwE yn cefnogi CYSAG Gwynedd bellach.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod CYSAG Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad strategol priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel pwyllgor statudol.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Cwricwlwm i Gymru**

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.
- Ymatebodd CYSAG Gwynedd i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar: "Canllawiau ynghylch Cynllunio a Gweithredu Elfen Orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau
- Annog athrawon addysg grefyddol Gwynedd ac aelodau CYSAG Gwynedd i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;



DRAFT

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion ac athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau'r arolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Ni dderbyniwyd unrhyw hunan arfarniad yn ystod 2020-2021 gan na ofynnwyd i unrhyw ysgol ei ddarparu.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

DRAFFT

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2020-21

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | *Disgwyl enwebiad* |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Elizabeth Roberts |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Dr. W Gwyn Lewis |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Anest Grey Frazer |
| Undeb yr Annibynwyr | Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Babyddol | Eirian Bradley Roberts |
| Bwdaeth | Dashu (Scott Smith) |
| Dyneiddwyr | Edward Parri-Jones |

**Cynrychiolwyr Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mrs Catherine Davey (Ysgol Llanystumdwy) |
| Cymdeithas yr Ysgolfestri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Mrs Heledd Owen (Ysgol Friars) |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL | *Disgwyl enwebiad* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Paul Rowlinson | Plaid Cymru |
| Cynghorydd E Selwyn Griffiths | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Menna Baines | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Judith Humphreys | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Elin Walker | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Medwyn Hughes | Annibynnol |
| Cynghorydd Dewi Wyn Roberts | Annibynnol |
| Cynghorydd Mike Stevens | Annibynnol |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

Gwyn Rhydderch
Parchedig Aled Davies

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Garem Jackson | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mair Huws | Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol |
| Einir Davies | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

DRAFT

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2020-21

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2020 – 2021, cyfarfu CYSAG Gwynedd 3 gwaith trwy gyfrwng Zoom:

11 Tachwedd 2020
10 Chwefror 2021
8 Mehefin 2021

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rhain yn y cofnodion ac yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 11 Tachwedd 2020**

- Clywed profiadau disgyblion ac athrawon dros y cyfnod clo;
- Materion yn ymwneud â CYSAGau – trafodwyd llythyr â ddanfonwyd at ysgolion oedd yn cynnwys Cyngor i Ysgolion ar Gyd-addoli yn ystod y pandemig;
- Ystyried sefyllfa arholiadau TGAU a Lefel UG/A yn ystod y flwyddyn addysgol. Penderfynwyd gyrru llythyr o bryder a deilydd portffolio Addysg Cyngor Gwynedd a Siân Gwenllïan i fynegi pryder am y sefyllfa

**b) Cyfarfod 10 Chwefror 2021**

- Cafwyd trafodaeth bellach ar Addoli ar y Cyd dros gyfnod y pandemig

**c) Cyfarfod 8 Mehefin 2021**

- Dyfodol Canolfan Addysg Grefyddol Prifysgol Bangor – cafwyd diweddariad gan Yr Athro G Evans Jones a chytunwyd i gydweithio ymhellach
- Trafodwyd cyfethol disgyblion ar bwyllgor CYSAG ac fe benderfynwyd sefydlu gweithgor ar wahân i drafod ymhellach
- Derbyniwyd yr adroddiad ar yr ymateb i Ymgynghoriad llywodraeth Cymru ar Ganllawiau ynghylch Cynllunio a Gweithredu elfen Gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Garem Jackson, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mair Huws, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel clerc CYSAG
Einir Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sy'n gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

DRAFT

## 3.4 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

### Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

### Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

### ESTYN

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bum maes arolygu:

1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth





Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

DRAFT

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill? (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>RE Quality Mark GOLD<br>Newyddion **Addysg Grefyddol**<br>**Religious Education** News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

DRAFT

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar faes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod y rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r ddarpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal â'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?

- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol bwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth grefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?

DRAFT

- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




**Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?**

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunan arfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

**Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?**

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadlaethau, achrediadau allanol.

**Rhifau - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, cyfyngedig | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| |
|---|
| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC. |
| Nodiadau: |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grŵp ffocws/Cyngor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017), |
| Nodiadau: |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| |
|---|
| **Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018) |
| Nodiadau: |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** | | | | |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw droseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglŷn ag addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) | | | | |
| Nodiadau: | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN** | | | | |



DRAFT

| Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro a hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau: |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad:**

DRAFT

## 3.5: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd

**<u>Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol</u>**

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn:
- ysgol arbennig ☐
- ysgol gynradd ☐
- ysgol uwchradd ☐

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd:
- torfol/ysgol gyfan ☐
- dosbarth ☐
- cyfnod allweddol ☐

Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd:
- y pennaeth ☐
- disgyblion ☐
- athro/athrawon ☐
- arweinydd crefyddol lleol ☐
- rhiant/rhieni ☐
- llywodraethwr ☐

Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para:
- llai na 5 munud ☐
- rhwng 5-10 munud ☐
- rhwng 10-15 munud ☐
- dros 15 munud. ☐

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ________________________________________________

Clywais:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | | |
| Cân addas | | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:
- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu yn fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;

DRAFT

- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau ‘hapus’ a ‘thrist’ sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a’r gymuned leol, ac i’w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

DRAFFT

**3.6 : Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2017-20**

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd 2017-18 a thrafodaethau cyfarfodydd 2018-19** | **Camau Gweithredu 2017-20**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Cwricwlwm i Gymru<br>Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau<br>"Yr hyn sy'n bwysig" | • Sicrhau bod penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr ac aelodau CYSAG yn wybodus am ofynion Cwricwlwm i Gymru (YP)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu sy'n ymateb i'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. (ALL+YP+AC)<br>• Cynrychioli Gwynedd mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YP + AC)<br>• Datblygu Maes Llafur Cytûn ar gyfer ysgolion Gwynedd sy'n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.<br>• Gwirio beth yw'r oriau dysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. | • Cofnodion CYSAG Gwynedd<br>• Cofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Gwynedd i ysgolion.<br>• Maes Llafur Cytûn Gwynedd<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Maes Llafur Cytûn Gwynedd yn adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru<br>• Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Sicrhau bod Addysg Grefyddol yn cael ei gynrychioli yn deg o fewn MDaPH y Dyniaethau. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd da/da iawn | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o GYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |
| *Cefnogaeth i GYSAG Gwynedd* | • Cysylltu a GWE er mwyn pwysleisio yr angen am ymgynghorydd pwnc ar gyfer CYSAG Gwynedd. | • Llythyru.<br>• Cofnodion CYSAG Gwynedd. | • Ymgynghorydd pwnc sy'n hyddysg yn y CiG newydd a'r hyn sy'n gyfredol o fewn Addysg Grefyddol drwy addysg cynradd ac uwchradd er mwyn codi a chadw safonau o fewn Addysg Grefyddol yng Ngwynedd. | ☺<br>😐<br>☹ |

DRAFT

Tud. 111

DRAFT